

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Potensial yr Economi Forwrol yng Nghymru

Chwefror 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [SeneddBusnes@cynulliad.cymru](mailto:SeneddBusnes@cynulliad.cymru)

Twitter: [@SeneddBusnes](https://twitter.com/SeneddBusnes)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Potensial yr Economi Forwrol yng Nghymru

Chwefror 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafnidiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**William Graham (Cadeirydd)**

Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Mick Antoniw**

Llafur Cymru  
Pontypridd



**Mohammad Asghar**

Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Jeff Cuthbert**

Llafur Cymru  
Caerffili



**Keith Davies**

Llafur Cymru  
Llanelli



**Dafydd Elis-Thomas**

Plaid Cymru  
Dwyfor Meirionnydd



**Rhun ap Iorwerth**

Plaid Cymru  
Ynys Môn



**Eluned Parrott**

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Canol De Cymru



**Gwenda Thomas**

Llafur Cymru  
Castell-nedd



**Joyce Watson**

Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Cynnwys

---

<b>Rhagair</b> .....	<b>5</b>
<b>Argymhellion y Pwyllgor</b> .....	<b>6</b>
<b>1. Cyflwyniad i'r ymchwiliad</b> .....	<b>10</b>
Canolbwynt a chylch gorchwyl .....	10
Sail resymegol dros yr ymchwiliad.....	10
Casglu tystiolaeth.....	11
<b>2. Crynodeb gweithredol</b> .....	<b>13</b>
Potensial economaidd yr economi forwrol .....	13
Porthladdoedd.....	13
Rôl Llywodraeth Cymru .....	14
Dull strategol wedi'i ysbrydoli gan Iwerddon .....	14
Ynni adnewyddadwy morol .....	15
Yr UE ac ymgysylltu rhyngwladol.....	16
Cyllid yr UE.....	17
Agenda ymchwil a sgiliau.....	17
<b>3. Dull strategol o ran yr Economi Forwrol</b> .....	<b>19</b>
Gwerth yr economi forwrol yn ei chyfanrwydd .....	19
Rôl economaidd porthladdoedd Cymru .....	19
Potensial economaidd ynni morol .....	20
Dull strategol o ran twf morwrol .....	21
Prif argymhelliad .....	24
<b>4. Ynni adnewyddadwy morol</b> .....	<b>25</b>
Cryfder Cymru ym maes ynni morol.....	25
Map ynni cefnforol a'r ysgogiad ar lefel yr UE.....	26
Rhwystrau / heriau sy'n wynebu'r sector.....	28
Gwaith blaenorol gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ynnwys adnewyddadwy morol.....	29
Argaeledd data.....	29
Seilwaith y grid a mynediad iddo.....	30

Prisiau streic ar gyfer ynni adnewyddadwy .....	31
Materion cynllunio, trwyddedu a chaniatadau .....	31
Argymhellion.....	34
<b>5. Porthladdoedd .....</b>	<b>35</b>
Datganoli polisi porthladdoedd .....	35
Arallgyfeirio o ran Porthladdoedd Cymru.....	36
Ardaloedd Menter .....	42
Cysylltedd trafndiaeth i borthladdoedd Cymru .....	43
Ffyrdd .....	44
Rheilffyrdd .....	46
Datblygu Polisi Porthladdoedd Cymru .....	48
Argymhellion.....	53
<b>6. Agenda Ymchwil a Sgiliau.....</b>	<b>55</b>
Sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau angenrheidiol.....	55
Argymhellion.....	59
<b>7. Ymgysylltiad â'r UE a chyfleoedd ariannu'r UE .....</b>	<b>60</b>
Cyflwyniad.....	60
Polisi Trafnidiaeth a Chyllid yr UE.....	60
Traffyrdd y môr a chyfleoedd eraill i Gymru.....	62
Cyllid ac ymchwil yr UE .....	65
Rôl fwy gweithredol i Lywodraeth Cymru .....	66
Argymhellion.....	68
<b>Atodiad A – Cylch Gorchwyl .....</b>	<b>69</b>
<b>Atodiad B – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....</b>	<b>70</b>
<b>Atodiad C – Tystion .....</b>	<b>71</b>

## Rhagair

---

Mae ymchwiliad y Pwyllgor i botensial yr Economi Forwrol wedi bod yn daith hir.

Yn ein gwaith, rydym wedi clywed gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yng Ngwlad Belg, Lwcsembwrg ac Iwerddon, yn ogystal â chasglu tystiolaeth ym Mangor, Abertawe a Chaerdydd. Rydym wedi edrych ar rôl hanfodol porthladdoedd, pwysigrwydd cysylltiadau trafndiaeth effeithiol, a'r potensial ar gyfer cynhyrchu ynni.

Rydym wedi cwrdd ag arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd hyn, ac wedi dod i un prif gasgliad: mae potensial enfawr i gynyddu Economi Forwrol Cymru ac i ddod yn un o brif ysgogwyr 'Twf Glas' yn ein rhan ni o'r byd.

Mae'r dŵr sy'n amgylchynu tair ochr Cymru yn adnodd naturiol a allai fod yr un mor werthfawr i Gymru yn y dyfodol ac yr oedd y glo yn ei chymoedd yn y gorffennol. Ond, nid drwy ddamwain y defnyddir y potensial hwnnw. Bydd angen i Lywodraeth Cymru feddwl yn strategol a dangos arweinyddiaeth, gan gydlynu camau gweithredu ar draws adrannau i gyflawni'r weledigaeth.

Er bod yr adroddiad hwn yn cynnwys dros 20 o argymhellion, mae yna un cam gweithredu hanfodol y mae'n rhaid ei gymryd: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Cynllun Morol Cymru yn darparu fframwaith cynhwysfawr a cyffredinol ar gyfer datblygu adnoddau morol Cymru a'i chymunedau arfordirol yn gynaliadwy.

Heb y weledigaeth honno, ynghyd ag arweinyddiaeth a chydweithredu, bydd Cymru ar ei cholled. Yn Iwerddon, gwelsom beth sy'n bosibl pan mae adrannau'r Llywodraeth yn cydweithio ag un weledigaeth, ymdeimlad clir o'r cyfeiriad a thargedau uchelgeisiol – rydym am weld yr un egni ac uchelgais ar yr ochr hon i Fôr Iwerddon.

William Graham AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

## Argymhellion y Pwyllgor

---

Y prif argymhelliad:

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cynllun Morol Cymru yn darparu fframwaith cynhwysfawr a cyffredinol ar gyfer datblygu adnoddau morol Cymru a'i chymunedau arfordirol yn gynaliadwy. Dylai gynnwys amcanion a thargedau mesuradwy - gan gynnwys perfformiad economaidd - a dylid ei roi ar waith gan ddefnyddio dull 'Llywodraeth gyfan', wedi'i fodelu ar Gynllun Morol Integredig Iwerddon.**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr hyn a ganlyn:

**Argymhelliad 1.** Blaenoriaethu cyfranogiad mewn rhwydweithiau, prosiectau a phartneriaethau'r UE yn y sector ynni morol, gan ddefnyddio dull rhagweithiol a blaengar o ran ymgysylltu â mentrau ar lefel yr UE. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 2.** Sicrhau bod Llysgenhadon Cyllid yr UE yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Morol newydd i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer ariannu a chyllid o'r UE yn cael eu cynnwys yng ngwaith y grŵp hwn. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 3.** Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Rhanbarth Macro yr Iwerydd neu Bartneriaeth Strategol, mewn trafodaethau ag Iwerddon, yr Alban, Llywodraeth y DU, y Comisiwn Ewropeaidd, a thrwy ei haelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau a Chynhadledd y Rhanbarthau Morwrol Ymylol. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 4.** Mynnu penderfyniadau gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod eglurder ynghylch prisiau streic ar gyfer technolegau ynni morol adnewyddadwy gwahanol cyn gynted â phosibl. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 5.** Darparu mwy o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau casglu data morol, gan gynnwys effeithiau posibl datblygiadau ar yr amgylchedd morol. Dylai hyn gynnwys meddwl yn greadigol ac yn rhagweithiol ynghylch sut y gallai gwahanol ffrydiau cyllid yr UE gefnogi hyn. (Tudalen 34)



**Argymhelliad 6.** Adolygu polisi Ardaloedd Menter o ganlyniad i ddatganoli arfaethedig polisi porthladdoedd. Yn benodol, dylai'r adolygiad ystyried a yw'r dull sector yn briodol ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n cynnwys porthladdoedd, o ystyried cwmpas y cyfleoedd o fewn yr economi forwrol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried a oes angen mwy o Ardaloedd Menter i gefnogi datblygiad porthladdoedd.

(Tudalen 53)

**Argymhelliad 7.** Datblygu prosiectau ffyrdd priodol ac effeithiol i wella llif traffig ar yr A55 a'r A40 o ystyried y risg i borthladdoedd yn sgil newidiadau ymylol o ran effeithlonrwydd.

(Tudalen 53)

**Argymhelliad 8.** Gweithio gyda phorthladdoedd perthnasol a rhanddeiliaid lleol eraill yn ogystal â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i ystyried sut y gall cynlluniau moderneiddio'r rheilffyrdd yng Nghymru helpu i ddatblygu'r diwydiant cludo nwyddau ar y rheilffyrdd er mwyn gwasanaethu porthladdoedd Cymru.

(Tudalen 53)

**Argymhelliad 9.** Gweithredu'n bendant yn dilyn datganoli pwerau cynllunio porthladdoedd er mwyn symleiddio a chyflymu proses gynllunio porthladdoedd a'i hintegreiddio â phroses trwyddedu a chaniatadau morol effeithiol sydd ag adnoddau addas er mwyn gwneud penderfyniadau yn gyflym ynghylch ceisiadau datblygu. Dylid ystyried cynnwys gwelliannau i borthladdoedd mawr a datganoledig Cymru fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

(Tudalen 54)

**Argymhelliad 10.** Ymgysylltu â phorthladdoedd Cymru a Grŵp Porthladdoedd Cymru i egluro cwmpas y strategaeth ar gyfer porthladdoedd Cymru yn y dyfodol a sut y bydd hynny'n cael ei ddatblygu i roi sicrwydd i'r sector.

(Tudalen 54)

**Argymhelliad 11.** Datblygu Polisi Porthladdoedd i Gymru sy'n:

- Darparu gweledigaeth glir ar gyfer porthladdoedd Cymru ac arweinyddiaeth strategol sy'n cefnogi porthladdoedd i gyflawni eu nodau;
- Nodi'n glir lle mae angen cymorth ychwanegol, er enghraifft, o ran nodi a darparu seilwaith neu wasanaethau sydd â budd economaidd ehangach ond sy'n cynhyrchu elw uniongyrchol cyfyngedig i'r porthladdoedd eu hunain;

- Alinio â pholisïau twf glas a thrafnidiaeth yr UE er mwyn hwyluso ymgysylltu â'r UE a chefnogi ceisiadau am gyllid gan yr UE;
- Annog datblygu a rhoi prif gynlluniau porthladdoedd ar waith, sy'n adlewyrchu rôl ehangach porthladdoedd yn yr economi forwrol, a'r economi leol yn gyffredinol;
- Cynnwys asesiad o allu cystadleuol porthladdoedd Cymru;
- Cynnwys porthladdoedd mewn polisïau allweddol yng Nghymru, yn arbennig ar ddatblygiad yr economi forwrol, polisi trafndiaeth, polisi amgylcheddol a chynllunio a pholisïau ehangach sy'n cefnogi twf economaidd. (Tudalen 54)

**Argymhelliad 12.** Blaenoriaethu buddsoddiad cynyddol mewn gallu ymchwil morol, gan gynnwys trafodaethau â Llysgenhadon Cyllid yr UE ar y cyd ag Addysg Uwch yng Nghymru ar sut y gellir defnyddio cyllid yr UE a chyllid arall i gefnogi hyn. Dylai hyn gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer datblygu cais COFUND ar gyfer ymchwil morol. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 13.** Gofyn i Lysgenhadon Cyllid yr UE edrych am gyfleoedd i raglenni cyllido'r UE gefnogi'r agenda hwn, gan gynnwys (ond nid yn unig) Erasmus+, Horizon 2020, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 14.** Adolygu'r gefnogaeth i ynni morol a'r economi forwrol ehangach yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac archwilio sut y gellir cryfhau hynny drwy bartneriaeth rhwng tîm Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch yng Nghymru a swyddfeydd CLILC. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 15.** Cynnal ymarfer mapio yn edrych ar anghenion sgiliau a hyfforddiant yr economi forwrol yn y dyfodol ac adolygu'r ddarpariaeth bresennol o ran hyfforddiant ym maes Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru i ategu'r anghenion hyn ar gyfer y dyfodol. Dylai ystyried y gwaith a wnaed eisoes i edrych ar anghenion y sector ynni morol o ran sgiliau. (Tudalen 59)

**Argymhelliad 16.** Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd yn y rhestr o brosiectau posibl a nodwyd ar gyfer cefnogaeth gan yr EFSI. (Tudalen 68)

**Argymhelliad 17.** Ymgysylltu'n llawer mwy rhagweithiol â sefydliadau'r UE a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu'r cysylltiadau angenrheidiol i fanteisio ar CEF a ffynonellau eraill posibl o gyllid yr UE ar gyfer trafndiaeth. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad Gweinidogol mewn digwyddiadau rhanddeiliaid, fel Diwrnodau TEN-T. (Tudalen 68)

**Argymhelliad 18.** Ymgysylltu, fel mater o frys, â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon, porthladdoedd Iwerddon, porthladdoedd Cymru, rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru a Chomisiwn yr UE i ddatblygu cynigion ar gyfer Cyllid Trafnidiaeth yr UE, yn enwedig prosiectau Traffyrdd y Môr. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru gynnal cynhadledd i ganiatáu i rhanddeiliaid, yn enwedig porthladdoedd Cymru, ddeall cyfleoedd cyllido'r UE ac ystyried ffordd ymlaen. (Tudalen 68)

**Argymhelliad 19.** Rhoi i borthladdoedd y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gael gafael ar gyllid yr UE a ffynonellau eraill. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu a oes gan ei staff y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i wneud hyn. (Tudalen 68)

**Argymhelliad 20.** Gofyn i uned Horizon 2020 WEFO fynd i'r afael â'r alwad gan fusnesau bach a chanolig i gael cyngor a chefnogaeth arbenigol unigol o ran manteisio ar gyfleoedd drwy raglenni cyllido'r UE. (Tudalen 68)

# 1. Cyflwyniad i'r ymchwiliad

---

## Canolbwynt a chylch gorchwyl

1. Edrychodd yr ymchwiliad ar botensial economaidd yr economi forwrol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd yn ymwneud ag ynni morol (a gyfeirir ato hefyd fel ynni 'cefnforol'), rôl porthladdoedd fel canolfannau, cysylltiadau trafniadaeth allweddol ag Iwerddon, a dull strategol Llywodraeth Cymru o ran materion morol a morwrol.
2. Gan mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yw polisi yr amgylchedd ag ynni, wrth inni ystyried y sector ynni adnewyddadwy morol, fe wnaethom ganolbwyntio ar botensial a gofynion economaidd y diwydiant newydd hwn. Pan gododd sylwadau am yr amgylchedd morol a materion cynllunio / caniatadau, fe gyfeiriwyd yn ôl at waith y Pwyllgor hwnnw yn y meysydd hynny.
3. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad wedi'i nodi yn Atodiad A.

## Sail resymegol dros yr ymchwiliad

4. Yn dilyn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer chwe morlyn llanw yn y DU, a phedwar o'r rheiny yng Nghymru, gan gynnwys Morlyn Llanw Bae Abertawe, fe gynyddodd y diddordeb a'r cyffro yng Nghymru ynghylch potensial ynni morol.
5. Roedd y diswyddiadau ym mhurfa olew Murco yn Sir Benfro, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014, yn ein hatgoffa o wendid cymunedau arfordirol o ran newid economaidd a thanlinellodd bwysigrwydd buddsoddi mewn technolegau a sectorau newydd, fel y sector ynni morol.
6. Hefyd o ddiddordeb oedd y cynllun i ddatganoli polisi porthladdoedd i Gymru, a oedd wedi'i gynnwys yng nghyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi 2015, ac ers hynny wedi'i gadarnhau drwy gyhoeddiad y Bil Cymru drafft. Mae Strategaeth Twf Glas yr UE<sup>1</sup> yn nodi porthladdoedd fel canolfannau allweddol ar gyfer yr economi forwrol, ac roeddem yn awyddus i edrych ar sut y gallai porthladdoedd Cymru arallgyfeirio eu gweithgareddau er budd eu cymunedau lleol a'r economi ehangach.

---

<sup>1</sup> [http://ec.europa.eu/maritimeaffairs/policy/blue\\_growth/](http://ec.europa.eu/maritimeaffairs/policy/blue_growth/)

7. Roedd gennym hefyd ddiddordeb i ymchwilio ymhellach i'r cyfleoedd posibl i Gymru o'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop, a lansiwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2014, sy'n ceisio creu gwerth tua €315 biliwn o fuddsoddiadau seilwaith ar draws yr UE dros y tair i'r pedair blynedd nesaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhestr o brosiectau posibl i gael cymorth o dan y fenter hon, gan gynnwys Ynys Ynni Môn, Morlyn Llanw Bae Abertawe, a datblygiadau seilwaith trafndiaeth ar hyd coridorau gogledd a de Cymru.

8. Roedd yr ymchwiliad hwn yn gyfle i edrych ar y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar nifer o argymhellion y Pwyllgor ynghylch trafndiaeth a chysylltedd, yn enwedig o ran cysylltiadau ag Iwerddon.

9. Yn olaf, rydym yn ymwybodol o'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i'r economi forwrol yn Iwerddon, fel y nodir yng Nghynllun Morol Integredig Llywodraeth Iwerddon, "Harnessing our Ocean Wealth", a gyhoeddwyd yn 2012. O ystyried pa mor agos y mae'r Iwerddon, a'n bod yn rhannu cysylltiadau trafndiaeth forwrol a môr, roeddem yn awyddus i edrych ar yr hyn y gallai Cymru ei ddysgu o'r dull gweithredu strategol hwn, yn enwedig yng nghyd-destun y gwaith o baratoi Cynllun Morol Llywodraeth Cymru - sydd i fod i gael ei gyhoeddi ddiwedd 2016 / ddechrau 2017. Roeddem hefyd yn awyddus i drafod y cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â Gweinidogion Iwerddon.

### **Casglu tystiolaeth**

10. Cawsom 23 ymateb ysgrifenedig i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig, a ddaeth i ben ddiwedd mis Medi 2015. Bu'r pwyllgor yn cymryd tystiolaeth lafar, gan gynnwys sesiynau tystiolaeth ffurfiol allanol ym Mangor ac Abertawe, ac ymweliadau anffurfiol â Brwsel a Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg. Bu'r pwyllgor ar ymweliad â Dulyn ar 1 Hydref gan gwrdd â Gweinidogion Iwerddon, Sefydliad Morol Iwerddon, Cwmni Porthladd Dulyn a nifer o sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sectorau ynni morwrol a morol yn Iwerddon.

11. Hoffem ddiolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ymchwiliad hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig i Lywodraeth Iwerddon a'r Sefydliad Morol am drefnu rhaglen ardderchog ar gyfer ein hymweliad â Dilyn, i swyddogion Banc Buddsoddi Ewrop a drefnodd ein hymweliad â Lwcsembwrg, ac i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe a Phrifysgol Bangor am gynnal ein sesiynau tystiolaeth allanol.

## 2. Crynodeb gweithredol

---

### Potensial economaidd yr economi forwrol

12. Mae'r economi forwrol yn cynnig potensial gwirioneddol i Gymru, yn enwedig o fewn sectorau newydd a sectorau sy'n dod i'r amlwg, fel ynni morol adnewyddadwy. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi rhoi mwy o sylw yn y blynyddoedd diweddar i'r rhan hon o'r economi, drwy ei Strategaeth Twf Glas, gan geisio hyrwyddo arallgyfeirio porthladdoedd a chymunedau arfordirol i fod yn feysydd twf newydd ac amrywio'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael mewn cymunedau arfordirol.

13. Mae Cymru'n rhan o'r newid hwn, ac fe welsom, fel rhan o'n hymchwiliad, rai o'r mentrau a'r prosiectau cyffrous sy'n cael eu datblygu, a allai gael effaith sylweddol ar economi Cymru, gan gynnwys sgil-fanteision o ran hamdden, diwylliant a sectorau eraill.

### Porthladdoedd

14. Mae porthladdoedd Cymru yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru ac maent yn ganolfannau allweddol ar gyfer y diwydiannau morwrol yng Nghymru. Mae'r prif borthladdoedd yn edrych fwyfwy i arallgyfeirio i weithgareddau economaidd newydd, fel ynni adnewyddadwy a thwristiaeth arfordirol. Nid yw hyn yn unig i'w groesawu, ond mae'n hanfodol i lwyddiant Cymru o ran datblygu diwydiannau morwrol yn y dyfodol.

15. Mae'r Bil Cymru drafft yn cynnwys cynigion i ddatganoli agweddau allweddol ar bolisi porthladdoedd, gan gynnwys y gyfundrefn gynllunio, i Gymru. Os caiff ei ddeddfu, bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru integreiddio datblygiad porthladdoedd yn rhan o'i strategaethau ehangach a hefyd i symleiddio'r broses cynllunio a thrwyddedu. Clywsom fod Llywodraeth Cymru yn paratoi i ddatblygu strategaeth porthladdoedd a memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda phorthladdoedd Cymru.

16. Mae cwmpas i Lywodraeth Cymru gefnogi datblygiad porthladdoedd drwy ei strategaeth newydd, a hefyd i weithio i wella'r cysylltiadau trafndiaeth i borthladdoedd, sy'n ffactor allweddol o ran eu gallu i gystadlu.

## **Rôl Llywodraeth Cymru**

17. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, gwelsom enghreifftiau o Lywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad yr economi forwrol.

18. Mae clustnodi €100 miliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer ynni morol yn arwyddocaol ac i'w gymeradwyo. Cafodd creu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Morol ei groesawu'n eang gan dystion, ac mae cyfranogiad chwaraewyr allweddol y sector hwn yn argoeli'n dda.

19. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld tystiolaeth o fethiant Llywodraeth Cymru i ddilyn i fyny yn ddigonol ar argymhellion blaenorol y Pwyllgor hwn ynghylch cyllido'r UE ar gyfer trafndiaeth a chysylltedd.

20. Roeddem yn siomedig am y diffyg dilyniant ar TEN-T / Cyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF), ar gyfleoedd ar gyfer Traffyrdd y Môr, a diffyg ymgysylltu'n gyffredinol. Cawsom ein synnu a'n siomi i glywed nad oes fawr o gysylltiad wedi bod â Llywodraeth Iwerddon a Phorthladd Dulyn.

21. Ein hargraff ni o ddull Llywodraeth Cymru tuag at yr economi forwrol yw ei fod yn ddarniog, heb unrhyw dystiolaeth o ddull Llywodraeth gyfan. Er bod ymgysylltiad Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried i fod yn gadarnhaol, yn enwedig yn y sector ynni morol, roedd consensws bod bellach angen fframwaith strategol cyffredinol.

## **Dull strategol wedi'i ysbrydoli gan Iwerddon**

22. Roedd ein hymweliad ag Iwerddon yn gyfle i feincnodi Cymru yn erbyn aelod-wladwriaeth o'r UE sy'n cael ei chydabod gan y Comisiwn Ewropeaidd fel yr arweinydd o ran datblygu economi cefnforol yn Ewrop.

23. Un o'n prif argymhellion yw bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddogfen 'Harnessing Our Ocean Wealth' Iwerddon wrth baratoi ei Chynllun Morol Cenedlaethol. Dylid modelu cynllun Cymru ar ddull Llywodraeth gyfan Iwerddon o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith, ac fe ddylai ganolbwyntio ar gyflawni amcanion clir gyda thargedau mesuradwy i adrannau unigol eu cyflawni.



## **Ynni adnewyddadwy morol**

24. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ddod yn arweinydd yn natblygiad y sector ynni adnewyddadwy morol. Gwelsom dystiolaeth glir o weithgaredd entrepreneuriaidd yng Nghymru i gefnogi'r sector newydd hwn. Mae Porthladd Mostyn wedi dod yn ganolbwynt pwysig ar gyfer y sector adnewyddadwy, ac mae Aberdaugleddau yn symud i'r un cyfeiriad. Mae Morlyn Llanw Bae Abertawe, y morlynnoedd llanw posibl eraill yng Nghymru, prosiectau tonnau llanw yn sir Benfro, a'r cynlluniau ar gyfer Ynys Ynni Môn hefyd yn enghreifftiau.

25. Clywsom bod gan y prosiectau hyn ymrwymïadau cryf o ran buddsoddi mewn cwmnïau lleol a chyflogaeth leol. Clywsom hefyd fod hwn yn sector yn ei ddyddiau cynnar ac, fel y cyfryw, mae'n wynebu nifer o rwystrau a heriau cyn iddo gyrraedd aeddfedrwydd. Dywedodd Rhodri Glyn Thomas AC wrthym fod consensws ynghylch y rhwystrau hyn ar lefel yr UE, ac roedd hynny'n cyd-fynd â'r dystiolaeth a glywsom gan randdeiliaid o Gymru.

26. Clywsom fod angen data i lywio cynlluniau datblygu a chydsynio / trwyddedu, a'r heriau sydd ynghlwm wrth hynny (cost, sensitifrwydd masnachol, materion yn ymwneud â dibynadwyedd, yr angen ar gyfer dadansoddiad / dehongliad gwyddonol y data crai) sy'n adleisio'r materion a godwyd yng ngwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar bolisi morol yng Nghymru.

27. Gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn, drwy dargedu mwy o adnoddau ar gyfer casglu / dadansoddi data, buddsoddi mewn mwy o allu ymchwil, darparu adnoddau ariannol ychwanegol ac, ar lefel mwy pragmatig, defnyddio dull profi a darparu ar gyfer prosiectau peilot lle y bo'n briodol.

28. Roedd cydnabyddiaeth glir na all Cymru ddatrys y rhwystrau sy'n wynebu'r sector ynni morol ar ei phen ei hun - mae angen ymgysylltu a chydweithredu ar lefel y DU a'r UE ac mewn partneriaeth â gwledydd a rhanbarthau eraill.

29. Cawsom dystiolaeth fod gan bysgotwyr yn Abertawe bryderon am effeithiau negyddol posibl Morlyn Llanw Bae Abertawe ar yr amgylchedd naturiol, ac oddi wrth Cyswllt Amgylchedd Cymru ynghylch yr angen i fabwysiadu dull ecosystemau sy'n cydbwysu amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er bod ein hymchwiliad wedi canolbwyntio ar effeithiau economaidd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o ran cynllunio morol.

### **Yr UE ac ymgysylltu rhyngwladol**

30. Clywsom dystiolaeth am bwysigrwydd partneriaethau strategol rhwng rhanbarthau a gwledydd o ran ymdrin â phroblemau cyffredin. Mae gan brifysgolion Cymru eisoes gysylltiadau ag Iwerddon ar brosiectau ymchwil yn y sector morol, tra bo Tidal Lagoon Power a Marine Energy Pembrokeshire yn cymryd rhan mewn mentrau ar lefel yr UE, fel yr Ocean Energy Forum ac Ocean Energy Europe.

31. Roeddem yn siomedig o glywed am y diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru yn y cynlluniau Undeb Ewropeaidd hyn yn y sector ynni morol. Mae hyn, ynghyd â'r methiant ymddangosol i ddilyn i fyny yn effeithiol ag Iwerddon ar gyfleoedd trafndiaeth a chysylltedd yn awgrymu bod diffyg arweinyddiaeth wleidyddol o ran dull Llywodraeth Cymru o weithio mewn partneriaeth yn yr UE.

32. Mae yna eithriadau, yn enwedig gwaith y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar Gronfeydd Strwythurol yr UE, ei chefnogaeth o waith Llysgenhadon Cyllid yr UE, a'i chysylltiadau â Banc Buddsoddi Ewrop. Mae'r rheiny yn enghreifftiau o Weinidog Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol ar lefel yr UE. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd ledled Llywodraeth Cymru ac mae'r diffyg cyfranogiad mewn digwyddiadau yn y sector ynni morol a rhwydweithiau ar lefel y DU a'r UE yn siomedig, yn enwedig o ystyried cryfderau Cymru yn y maes.

33. Fel rhan o'i waith ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau yn Ewrop, mae Rhodri Glyn Thomas AC wedi cynnig ffurf llawer cryfach o gydweithredu - creu partneriaeth strategol neu Ranbarth Macro ar gyfer Ardal yr Iwerydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r sector ynni cefnforol. Credwn fod gwerth mynd ar drywydd y syniad hwn.

## **Cyllid yr UE**

34. Mae ein hymchwiliadau blaenorol wedi dangos bod ystod eang o gyllid yr UE yn berthnasol i ddatblygiad yr economi forwrol yng Nghymru.

35. Dywedodd Banc Buddsoddi Ewrop wrthym fod y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol newydd, sy'n rhan o'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop, yn cynnig cyfleoedd i gefnogi twf y sector morwrol. Mae buddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop yng nghampws arloesi newydd Prifysgol Abertawe wedi cael canmoliaeth enfawr ac mae'n enghraifft ragorol. Roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd y cyfleoedd hyn.

36. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth gan rai porthladdoedd yn awgrymu eu bod yn dal i gamddeall rhai cyfleoedd cyllid yr UE, tra bo eraill wedi galw am gymorth ychwanegol i gael mynediad at gronfeydd. Clywsom gan y sector preifat bod angen cymorth a gwybodaeth wedi'u targedu ynghylch rhaglenni perthnasol yr UE. Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion yn ein hymchwiliadau blaenorol ar gyllid yr UE i Lywodraeth Cymru ac Addysg Uwch yng Nghymru i ddatblygu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer y sector preifat. Yn amlwg, nid yw hyn ar waith eto - felly, rydym yn ailddatgan ein galwad bod angen sylw ar hyn.

37. Rydym hefyd yn credu bod rôl ar gyfer cyllid yr UE o ran cefnogi casglu a dadansoddi data.

## **Agenda ymchwil a sgiliau**

38. Mae prifysgolion Cymru yn gwneud ymchwil rhagorol, sydd ar flaen y gad yn y sector morol, sydd i'w weld yn glir ym mhrosiect SEACAMS a gwaith y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, sy'n cynnwys y Ganolfan Ymchwil Morol ym Mhrifysgol Abertawe.

39. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd, er gwaethaf y gwaith ymchwil rhagorol yng Nghymru yn y maes hwn, ei fod yn faes arbenigol o fewn y sector ynni ehangach. Mae perygl y gallai Cymru fod ar ei cholled o ran cyfleoedd ymchwil yn y dyfodol oherwydd diffyg capasiti / seilwaith ar gyfer ynni morol o gymharu â'r Alban ac Iwerddon.

40. Rydym yn credu bod gwir angen mwy o fuddsoddiad i greu gallu ymchwil yn y sector ynni morol.

41. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau'r sector morol yn y dyfodol, a bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Morol hefyd yn trafod y mater. Dywedwyd wrthym, hyd yn hyn, (cyn belled ag yr oedd y tystion yn ymwybodol) nad oes unrhyw astudiaethau systematig neu fapio wedi'u gwneud o anghenion sgiliau'r economi forwrol yn ei chyfanrwydd ar gyfer y dyfodol, sy'n cyferbynnu â'r sefyllfa yn Iwerddon.

42. Dywedwyd wrthym y byddai llawer o'r sgiliau ar gyfer y sectorau newydd yn debyg i swyddi gweithgynhyrchu a pheirianneg eraill. Felly, dylai hyn olygu canolbwytio ar ail-sgilio ac ail-hyfforddi yn hytrach na datblygu proffiliau sgiliau cyfan gwbl newydd.

### **3. Dull strategol o ran yr Economi Forwrol**

---

#### **Gwerth yr economi forwrol yn ei chyfanrwydd**

43. Mae'r economi forwrol, a ddisgrifir yn gynyddol ar lefel yr UE fel yr 'economy las', yn cyfeirio at weithgareddau economaidd sy'n gysylltiedig â'r môr. Mae'n cynnwys trafniadaeth forwrol, gweithgareddau twristiaeth a hamdden arfordirol, pysgodfeydd a dyframaeth, adeiladu a gwaith atgyweirio ar longau (llai perthnasol yng Nghymru), echdynnu olew a nwy, a meysydd fel ynni morol adnewyddadwy, biotechnoleg forol a gweithgynhyrchu a pheirianeg forol.

44. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn amcangyfrif bod gwerth yr economi forwrol tua €500 biliwn y flwyddyn, sy'n cefnogi oddeutu 5.4 miliwn o swyddi. Mae'n faes lle y mae rhai o'r sectorau mwy traddodiadol - pysgodfeydd, echdynnu olew a nwy, adeiladu llongau a gweithgynhyrchu - wedi bod yn dirywio ers nifer o flynyddoedd. Mae'r Comisiwn wedi nodi, yn ei Strategaeth Twf Glas yn 2012, bod potensial enfawr ar gyfer twf mewn sectorau newydd a sectorau sy'n dod i'r amlwg, fel ynni morol, dyframaeth a biotechnoleg forol.

45. Mae Adroddiad Tystiolaeth Forol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar,<sup>2</sup> yn amcangyfrif bod gwerth gweithgarwch economaidd yn economi forwrol Cymru tua £2.1 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros, sy'n cefnogi 31,000 swydd yn uniongyrchol a 56,000 yn anuniongyrchol. Mae'r adroddiad yn nodi bod y ffigurau hyn yn debygol o fod yn amcangyfrifon rhy isel oherwydd diffyg data dibynadwy ar gyfer rhai ardaloedd.

#### **Rôl economaidd porthladdoedd Cymru**

46. Mae gan borthladdoedd rôl hollbwysig i'w chwarae fel canolfannau economaidd allweddol ar gyfer y diwydiannau morwrol, a'r sectorau trafniadaeth ac ynni cysylltiedig.

47. Mae saith porthladd "mawr" yng Nghymru, a phob un yn delio â mwy na 1 miliwn tonnell o nwyddau bob blwyddyn: Aberdaugleddau, Port Talbot, Caergybi, Abergwaun, Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd. Y mwyaf, Aberdaugleddau, yw porthladd trydydd mwyaf y DU, sy'n

---

<sup>2</sup>Ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:  
<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/marine-planning/other-supporting-evidence/wales-marine-evidence-report/?skip=1&lang=cy>

ymdrin â nwyddau ynni yn bennaf. Fodd bynnag, mae porthladdoedd "bach" Cymru hefyd yn gwasanaethu marchnadoedd allweddol. Er enghraifft, mae Mostyn yn cefnogi adeiladu a chynnal a chadw ffermydd gwynt ar y môr, ac yn allforio adenydd awyrennau Airbus.<sup>3</sup>

48. Yn ystod 2013, pasiodd tua 59 miliwn tonnell o draffig cludo nwyddau drwy borthladdoedd Cymru, sef 12 y cant o gyfanswm traffig porthladdoedd y DU. Roedd y mwyafrif (tua 71 y cant) yn swmp hylifedig (cynhyrchion olew hylif, olew crai a nwy hylifedig yn bennaf).

49. Mae porthladdoedd hefyd yn gyflogwyr mawr mewn cymunedau arfordirol. Dywedodd Porthladd Aberdaugleddau wrthym fod y porthladd yn cefnogi dros 5,000 o swyddi yng Nghymru ac yn gyflogwr sylweddol yn y sector ynni.<sup>4</sup> Dywedodd Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain bod y pum porthladd yn Ne Cymru (y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Port Talbot ac Abertawe) yn cefnogi 15,000 o swyddi yng Nghymru ac yn cyfrannu dros £1 biliwn at yr economi.<sup>5</sup>

### **Potensial economaidd ynni morol**

50. Yn ystod ein hymweliad â Brwsel, clywsom ystadegau trawiadol gan Ocean Energy Europe ynghylch potensial economaidd y sector ynni morol. Yn ei adroddiad ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau, fe wnaeth Rhodri Glyn Thomas gynnwys y data hwn: gellir creu tua 500,000 o swyddi yn yr UE gan y sector ynni morol sy'n dod i'r amlwg, sydd â'r potensial i gynhyrchu hyd at 15 y cant o alw ynni'r UE erbyn 2050 drwy ffynonellau adnewyddadwy.

51. Dywedodd Marine Energy Pembrokeshire wrthym:

“...the UK could capture a slice of the global marine energy market worth up to £76 billion and, separately that this could contribute around £4 billion cumulatively to UK GDP by 2050.”<sup>6</sup>

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol, Trafnidiaeth Môr, 2015

<sup>4</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladd Aberdaugleddau

<sup>5</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain

<sup>6</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Marine Energy Pembrokeshire

52. Clywsom hefyd fod y diwydiant eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi, er bod y dyfeisiau ynni adnewyddadwy ond newydd ddechrau cael eu rhoi yn y dŵr.<sup>7</sup> Dywedodd Marine Energy Pembrokeshire wrthym ei fod:

“...has already contributed over £34.5 million to Wales and is already having a positive impact on jobs and growth.”<sup>8</sup>

53. Dywedodd Tidal Lagoon Power wrthym hefyd am eu rhagamcanion ar gyfer effaith bosibl eu cynlluniau:

“The Tidal Lagoon Swansea Bay project will result in up to 1,900 full time equivalent jobs during the construction stage, and up to 181 long term full time equivalent operations, maintenance and employment relating to the running of the recreational facilities<sup>9</sup>. In terms of economic stimulus to the region, this amounts to up to £316 million GVA during construction and £76 million GVA per annum throughout the 120 year operational life of the tidal lagoon.”<sup>10</sup>

### **Dull strategol o ran twf morwrol**

54. Un o themâu canolog yr ymchwiliad oedd rôl Llywodraeth Cymru o ran cefnogi'r economi forwrol.

55. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar baratoi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ac mae hyn yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddefnyddio dull strategol ar gyfer datblygu'r economi forwrol yn ei chyfanrwydd.

56. Mae [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatblygu cynllun neu gynlluniau morol i Gymru, gan gynnwys glannau a dyfroedd y môr yng Nghymru. Y nod yw mapio blaenoriaethau ar sail ofodol ac amcanion ar gyfer yr amgylchedd morol, fel pysgodfeydd, cadwraeth, twristiaeth, trafndiaeth ac ynni; ac i gydbwysu a chydlynu'r blaenoriaethau sy'n cystadlu ar gyfer y defnydd ohonynt.

---

<sup>7</sup>Tyrbin llanw anferth wedi'i roi ar wely'r môr oddi ar Sir Benfro - BBC <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-west-wales-35087510>

<sup>8</sup> Paragraff 307, 15 Hydref 2015

<sup>9</sup>The Centre for Economics and Business Research, Gorffennaf 2014, 'The Economic Case for a Tidal Lagoon Industry in the UK'.

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tidal Lagoon Power

57. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei ddull cynllunio morol am y tro cyntaf yn 2011. Ar yr adeg honno, roedd yn rhagweld y byddai cynllun / cynlluniau morol yn eu lle erbyn 2013-14. [Ymrwymiad presennol](#) Llywodraeth Cymru yw ymgynghori ar gynllun morol drafft ar gyfer dyfroedd glannau a dyfroedd môr Cymru erbyn yn hwyr yn 2015 neu'n gynnar yn 2016<sup>11</sup>. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld mabwysiadu drafft cyntaf Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2016 / dechrau 2017.

58. Cynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru yn 2012<sup>12</sup>. Roedd ei adroddiad (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013) yn nodi'r pwysigrwydd yr oedd rhanddeiliaid o bob sector yn ei roi ar ddatblygu cynllun morol fel blaenoriaeth i Gymru. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd rhanddeiliaid y byddai cynllun yn darparu sicrwydd ac eglurder i ddefnyddwyr morol. Daeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r casgliad:

The development of a marine plan for Wales is crucial and should form the bedrock of the Welsh Government's marine policies.<sup>13</sup>

59. Disgrifiodd Marine Energy Pembrokeshire ddull Llywodraeth Cymru hyd yn hyn fel dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ond ychydig yn wan o ran polisi. Cytunodd Tidal Lagoon a galw am ddull integredig ar gyfer y sector, gan nodi Iwerddon a'r Alban fel enghreifftiau ble mae hynny'n digwydd yn barod.

60. Nododd Tidal Lagoon Power:

“A strategy for the maritime economy could help align the various/multiple Welsh Government priorities, and also help alignment with EU priorities and the EC Blue Growth Strategy to maximise leverage of structural funds to progress the maritime economy in Wales.”<sup>14</sup>

---

<sup>11</sup> Datganiad Ysgrifenedig - Y diweddaraf am y cynllun gweithredu strategol morol a physgodfeydd - Mawrth 2015, cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2015.

<sup>12</sup>Gweler [dudalennau gwe](#)'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am fanylion pellach.

<sup>13</sup> [Ymchwiliad i Bolisi Morol](#) [PDF], Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, paragraff 71, tudalen 27

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tidal Lagoon Power



61. Galwodd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd am strategaeth ar gyfer y sector morwrol gan danlinellu'r sgil-fuddion sy'n gysylltiedig â thargeddu cyllid yr UE:

“EU Funding sources linked to the Maritime sector are currently under utilised. The development of a Strategic Plan for the Maritime Economy... along with a clear delivery plan would allow for the funding sources to be aligned effectively with required interventions.”<sup>15</sup>

62. Pwysleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru bod angen dull ecosystemau:

“...the development of the maritime economy must be done using an ecosystems-based approach – looking at the management of the environment as a whole, including the human relationship with the environment, whilst equally balancing the social, economic and environmental issues.”<sup>16</sup>

63. Mae Cynllun Morol Integredig Iwerddon yn ymwneud â dull Llywodraeth gyfan. Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer gweithredu Cynllun Morol Iwerddon gan y Grŵp Cydlynu Morol o dan gadeiryddiaeth Simon Coveney TD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr. Rôl y Grŵp Cydlynu Morol yw goruchwylio darpariaeth a gweithrediaeth ar draws y Llywodraeth, ac mae'n cynnal cyfarfodydd misol i wirio cynnydd adrannol yn erbyn yr amcanion.

64. Yng Nghymru, mae'r cyfrifoldeb polisi ar gyfer yr economi forwrol yn cael ei rannu rhwng Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Er bod gan Lywodraeth Cymru eisoes Fwrdd Llywodraethu Strategol Morol, nid oes ganddi ddull Llywodraeth gyfan tuag at yr economi forwrol yng Nghymru. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, rydym wedi gweld tystiolaeth bod dull tameidiog o ran yr economi forwrol yng Nghymru.

65. Mae Cynllun Morol Iwerddon hefyd yn gosod nodau polisi clir - dwyn ynghyd nodau economaidd, ecolegol a chymdeithasol ehangach (o ran cryfhau ymgysylltiad Gwyddelod â'r môr a'u hunaniaeth forwrol). Mae hefyd yn gosod targedau economaidd penodol, gyda dyddiadau ar gyfer eu cyflawni:

---

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Ynys Môn

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyswllt Amgylchedd Cymru

- Dyblu gwerth cyfoeth cefnforol i 2.4 y cant o Gynnyrch Domestig Gros Iwerddon erbyn 2030.
- Cynyddu'r trosiant o economi cefnforol Iwerddon fel ei fod yn fwy na €6.4 biliwn erbyn 2020.

66. Yn ystod ein hymweliad â Dilyn clywsom hefyd am y pwysigrwydd i Lywodraeth Iwerddon bod ei strategaeth wedi'i halinio â blaenoriaethau'r UE. Oherwydd hynny, maent wedi gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido'r UE. Fel rydym yn nodi isod, clywsom y gellid sicrhau buddion tebyg pe byddai polisi porthladdoedd cenedlaethol a chynlluniau datblygu porthladdoedd Cymru yn cael eu halinio â pholisïau'r UE.

67. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn benodol ar gyfer datblygu'r sector ynni morol hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhanddeiliaid o Gymru am i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy strategol tuag at yr economi forwrol yn gyffredinol.

68. Mae angen i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gynllunio ar gyfer datblygiad y sector morwrol yn ei gyfanrwydd. Dylai gwmpasu twf cynaliadwy, datblygu economaidd - gan gynnwys ynni adnewyddadwy, twristiaeth, pysgodfeydd, dyframaeth, polisi porthladdoedd a sgiliau. Dylai fod yn gyfrwng i dyfu economi forwrol gynaliadwy ac i ddiogelu a gwarchod amgylchedd morol Cymru.

### ***Prif argymhelliad***

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cynllun Morol Cymru yn darparu fframwaith cynhwysfawr a cyffredinol ar gyfer datblygu adnoddau morol Cymru a'i chymunedau arfordirol yn gynaliadwy. Dylai gynnwys amcanion a thargedau mesuradwy - gan gynnwys perfformiad economaidd - a dylid ei roi ar waith gan ddefnyddio dull 'Llywodraeth gyfan', wedi'i fodelu ar Gynllun Morol Integredig Iwerddon.**

## 4. Ynni adnewyddadwy morol

---

### Cryfder Cymru ym maes ynni morol

69. Mae'r gwaith sydd ar y gweill yng Nghymru i harneisio potensial ynni morol yn gyfle gwych ar gyfer cydweithio rhyngwladol. Er enghraifft, dywedodd Ynys Ynni Môn wrthym eu bod mewn trafodaethau â pharciau ynni tramor yn Malaga, Bilbao a Sweden, ac rydym eisoes wedi gweld buddsoddiad €9 miliwn yn Ynys Môn gan gwmni Minesto o Sweden.<sup>17</sup>

70. Dywedodd yr Athro Colin Jago o SEACAMS wrth y Pwyllgor bod potensial i gwmnïau ynni adnewyddadwy yng Nghymru allforio eu technoleg a'u harbenigedd:

“Wales is in a terrific position to exploit marine renewable energy. Companies that come here in order to work in Wales will expand their operations overseas. I’m pretty sure that Tidal Lagoon Power are already looking at China. They’re looking at the Chinese coastline because China has got a big tidal range – fast tidal currents – just as we have... I would expect that any company that might be in north Wales that has got the required expertise is going to rapidly expand its activities way beyond Europe into areas like China, where the potential is huge.”<sup>18</sup>

71. Dywedodd Marine Energy Pembrokeshire wrthym fod eu cyfarfodydd gweithgor yng Nghaerdydd wedi denu datblygwyr technoleg o bob rhan o'r byd sydd â diddordeb mewn allforio eu cynnyrch i Gymru:

“...As Marine Energy Pembrokeshire, we’re not a developer ourselves, but we have a lot of developers in our working group, if you like, and the interest in Wales has grown so significantly that, in our working group meetings in Cardiff, we’ve had technology developers from Australia, America, Sweden, Scotland and Ireland. So, there’s a real interest now, driven by structural funding, which is a real advantage.”<sup>19</sup>

---

<sup>17</sup> Paragraff 214-215, 9 Gorffennaf 2015

<sup>18</sup> Paragraff 225, 9 Gorffennaf 2015

<sup>19</sup> Paragraff 308, 15 Hydref 2015

72. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i glustnodi €100 miliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer ynni morol wedi cael canmoliaeth yng Nghymru ac ar lefel yr UE. Deallwn mai hwn yw'r buddsoddiad mwyaf o'i fath yn yr UE. Rydym yn canmol Llywodraeth Cymru am gymryd penderfyniad mor arloesol.

73. Mae sefydliad diweddar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Morol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi cael cefnogaeth eang.

74. Gwnaed argraff arnom gan waith y sefydliadau y cawsom dystiolaeth ganddynt hyd yma, Tidal Lagoon Power a Marine Energy Pembrokeshire, yn ogystal ag Ynys Ynni Môn. Mae gwaith paratoi sylweddol yn mynd rhagddo i hau'r hadau ar gyfer buddsoddiadau mawr yn y sector.

### **Map ynni cefnforol a'r ysgogiad ar lefel yr UE**

75. Ym Mrwsel, clywsom fod potensial enfawr ynni morol yn cael ei gydnabod, ond nad yw'r sector yn datblygu mor gyflym ag y gobeithiwyd yn wreiddiol. Mae pryderon, os nad yw'r UE yn gyrru'r agenda ymlaen, y gallai rhannau eraill o'r byd gael y blaen ar Ewrop.

76. Er mwyn rhoi hwb o'r newydd i'r sector ar lefel yr UE, fe sefydlodd y Comisiwn Ewropeaidd, o dan arweiniad y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morwrol, yr Ocean Energy Forum yn 2014. Tasg y fforwm oedd cynhyrchu Map Ynni Cefnforol ar gyfer y sector.

77. Clywsom hefyd am rôl Ocean Energy Europe, fforwm aelodaeth sy'n dwyn ynghyd busnesau, ymchwilyr, cyrff cyhoeddus a grwpiau eraill sydd â diddordeb sydd ynghlwm wrth ddatblygu'r sector newydd hwn. Gwnaethom gyfarfod â Swyddfa Brwsel Cyfarwyddwr Ocean Energy Europe yn ystod ein hymweliad.

78. Roeddem yn falch o weld bod prifysgolion Cymru wedi cymryd rhan yn yr Ocean Energy Forum, gan gynnwys Prifysgol Abertawe, sydd hefyd yn aelod o Ocean Energy Europe. Clywsom hefyd fod Tidal Lagoon Power a Marine Energy Pembrokeshire wedi cymryd rhan weithredol yn yr Ocean Energy Forum ac Ocean Energy Europe.

79. Roeddem yn siomedig, fodd bynnag, i glywed nad yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn cymryd rhan yn yr Ocean Energy Forum, ac nad yw'n aelod o Ocean Energy Europe. Yn ogystal, roeddem yn hynod siomedig bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi tynnu allan o gynhadledd flynyddol Ocean Energy Europe yn Nulyn ym mis Hydref 2015. Byddai hyn wedi bod yn gyfle delfrydol i arddangos potensial Cymru ochr yn ochr â'r Alban ac Iwerddon, ac i ddangos parodrwydd Cymru i fuddsoddi a chefnogi'r diwydiant ynni morol adnewyddadwy.

80. Nid yw'r diffyg ymgysylltu hwn wedi'i gyfyngu i lefel yr UE, fel y clywsom gan Marine Energy Pembrokeshire:

“I think we've probably spent the last six years going to UK conferences—marine energy, specifically—and quite often it feels a little bit like 'the Scotland show', because [Scottish Government] is there every single time giving some clear, strong messages about how Scotland supports that.”<sup>20</sup>

81. Dywedodd Dr Masters wrthym fod ynni morol yn faes arbenigol yng Nghymru, ac nad yw wedi cael llawer o sylw tan yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, nac o ran buddsoddiad mewn ymchwil.

82. Rydym yn pryderu ynghylch y diffyg cysondeb o ran dull gweithredu Llywodraeth Cymru, a'r diffyg arweiniad strategol ar gyfer y sector ynni morol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dull o ran yr economi forwrol yn gyffredinol.

83. Mae perygl, os nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull mwy cydgysylltiedig a strategol ar frys, y gallai danseilio'r camau cadarnhaol iawn sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn o ran cefnogi datblygiad brodorol y sector yng Nghymru. Fel y nodwyd eisoes, mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr â dull Llywodraeth Iwerddon.

84. Dywedodd Rhodri Glyn Thomas AC wrthym fod angen cydweithredu wedi'i strwythuro o amgylch Cefnfor yr Iwerydd. Mae'n dadlau o blaid creu partneriaeth strategol neu Ranbarth Macro, gan ddwyn ynghyd y pum Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd sy'n ffinio arno (y DU, Iwerddon, Ffrainc, Sbaen a Phortiwgal) i ganolbwyntio ar ddatblygu ynni morol yn yr Iwerydd. Credwn fod gwerth mynd ar drywydd y syniad hwn.

---

<sup>20</sup> Paragraff 353, 15 Hydref 2015

## Rhwystrau / heriau sy'n wynebu'r sector

85. Clywsom gan Ocean Energy Europe, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morwrol, a gan Rhodri Glyn Thomas AC, fod consensws o fewn sector ynni cefnforol yr UE, ynghylch y prif rwystrau a'r heriau sy'n llesteirio twf y sector ar lefel yr UE. Mae'r rhain wedi'u grwpio i'r categorïau bras a ganlyn:

- Technolegol / ymchwil;
- Ariannol;
- Llywodraethu / cydsynio (yn cynnwys casglu data, argaeledd data a dadansoddi data);
- Heriau sy'n gysylltiedig â seilwaith grid; a
- Phryderon amgylcheddol.

86. Gwelsom dystiolaeth o'r rhwystrau hyn sy'n wynebu'r sector ynni morol yng Nghymru, yn ogystal ag enghreifftiau o'r gwaith parhaus i geisio eu datrys. Clywsom fod gan y rhan fwyaf o'r sector ynni morol faterion technolegol / ymchwil i'w datrys o hyd.

87. Mae absenoldeb technolegau aeddfed yn creu rhwystrau i fuddsoddiad. Fodd bynnag, ar ôl cyfuno'r costau uchel sy'n gysylltiedig â gweithio ar y môr â'r costau o gludo ynni i'r tir mawr, mae'r her o ran denu buddsoddiad ariannol yn glir.

88. Ni all Cymru fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn ar ei phen ei hun. Rhaid iddi weithio mewn partneriaeth â gwlad / gwledydd / rhanbarthau eraill a chymryd rhan weithredol mewn mentrau ar lefel yr UE, fel yr Ocean Energy Forum.

89. Nododd Tidal Lagoon Power:

“The considerable opportunity to Wales from a tidal lagoon industry will be lost without practical support from the Welsh Government to deliver the World’s first at Swansea Bay.”<sup>21</sup>

90. Bydd y sector ond yn aeddfedu unwaith y bydd prosiectau ar y gweill.

---

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tidal Lagoon Power

## Gwaith blaenorol gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ynni adnewyddadwy morol

91. Mae angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo ynni adnewyddadwy morol a hwyluso'r rhwystrau eisoes wedi cael sylw yn ystod y Cynulliad hwn gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a wnaeth nifer o argymhellion ar sut y gellir cefnogi twf y sector.<sup>22</sup>

92. Roedd ein hadroddiad, 'Cysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru',<sup>23</sup> hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adlewyrchu pwysigrwydd strategol porthladdoedd o fewn y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy o fewn polisiau ynni Cymru.

### Argaeledd data

93. Roedd casglu data, argaeledd data a dadansoddi data yn thema a ddaeth i'r amlwg mewn tystiolaeth fel rhwystr ac fel cyfle i ddatblygu'r sector. Mae'n amlwg bod angen data dibynadwy, ond mae'r amgylchedd morol yn gwneud cael gafael ar ddata yn anodd a chostus.

94. Unwaith eto, mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi edrych ar y materion hyn yn fanwl adeg ei waith ar ei ymchwiliad i [Bolisi Morol yng Nghymru](#) ac yn fwy diweddar yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar *Fil yr Amgylchedd (Cymru) drafft*.

95. Nododd Dr Masters o Brifysgol Abertawe yr heriau sy'n wynebu prosiectau wrth iddynt ddechrau yn y sector ynni morol lle nad oes digon o ddata ar gael. Awgrymodd defnyddio dull mwy rhagweithiol, fel sydd wedi'i fabwysiadu yn yr Alban:

“So, a very sensible way forward is to deploy a monitor approach, where technologies are deployed at sea at an appropriate scale and then the university input is to help in the monitoring process to understand what those first projects are doing to provide the evidence base, and you can then manage impacts or lack of impacts going forward, based on that evidence.”<sup>24</sup>

---

<sup>22</sup> [Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru](#) [PDF], Gorffennaf 2012, paragraff 63

<sup>23</sup> [Cysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru](#), [PDF] Gorffennaf 2012

<sup>24</sup> Paragraff 210, 15 Hydref 2015

96. Fe alwodd mentrau masnachol ac ymchwilwyr addysg uwch am fwy o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru o ran casglu data digonol a sicrhau ei fod ar gael er mwyn lleihau'r risg sydd ynghlwm wrth brosiectau ynni adnewyddadwy i fuddsoddwyr posibl.

97. Clywsom, yn ystod ein hymweliad â Dilyn, am waith Prifysgol Cenedlaethol Iwerddon Galway ar gasglu a dadansoddi data cymdeithasol-economaidd ynghylch yr economi forwrol. Mae pwysigrwydd casglu data, cydlynu data a rhannu data yn Iwerddon ac ar lefel yr UE yn llinyn sy'n rhedeg drwy Gynllun Morol Iwerddon.

### **Seilwaith y grid a mynediad iddo**

98. Rhwystr posibl o ran manteisio ar gyfleoedd ynni morol adnewyddadwy yw'r angen i drosglwyddo'r ynni i'r tir mawr. Nododd Dr Masters o Brifysgol Abertawe fod angen delio â hyn yn rhagweithiol pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor.<sup>25</sup>

99. Roedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cydnabod bod angen datganoli'r mecanweithiau er mwyn cael cynnydd o ran y datblygiadau, ond nid aeth mor bell â dweud y dylid datganoli mynediad at seilwaith y grid. Dywedodd:

“Grid infrastructure: this is going to be a big issue in terms of the development of marine energy and the development of the ports. You know, we just need to have mechanisms in place to help us with some of this as we drive this agenda forward, because the grid will definitely be an issue.”<sup>26</sup>

100. O ystyried costau uchel buddsoddiadau seilwaith, mae rhinwedd mewn archwilio'r cwmpas ar gyfer cymorth gan Fanc Buddsoddi Ewrop a phriodoldeb y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol (rhan o'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop) ar gyfer prosiectau i wella seilwaith y grid.

101. Er y bydd cysylltiadau grid a gwelliannau i'r grid yn her o ran datblygu ynni morol yng Nghymru, cafwyd ein hatgoffa ein bod yn wynebu llai o her na rhai o rannau mwy anghysbell y DU, gan gynnwys llawer o ardaloedd yn yr Alban, sy'n rhoi mantais gystadleuol bosibl i Gymru o ran denu buddsoddiadau ynni morol yn y dyfodol.

---

<sup>25</sup> Paragraff 220, 15 Hydref 2015

<sup>26</sup> Paragraff 130, 15 Hydref 2015



## **Prisiau streic ar gyfer ynni adnewyddadwy**

102. Rhwystr posibl o ran gwireddu potensial prosiectau ynni morol yw'r diffyg eglurder ynghylch prisiau streic ar gyfer gwahanol dechnolegau - y pris cytûn y bydd Llywodraeth y DU yn talu am ynni a gynhrychir gan dechnolegau gwahanol. Dywedodd Dr Masters wrth y Pwyllgor, ynghyd â seilwaith, bod sicrwydd ynghylch y mater hwn yn hanfodol:

“... confidence about strike price, cables in the water, and confidence about planning, and we can go. It’s an industry waiting to start, really.”<sup>27</sup>

103. Roedd Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn cydnabod hyn yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor.<sup>28</sup>

104. Dywedodd ei bod wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU er mwyn canfod y pris streic ar gyfer morlynnoedd llanw ac y byddai'n parhau i fynd ar drywydd y mater hwn.<sup>29</sup>

## **Materion cynllunio, trwyddedu a chaniatadau**

105. Mae materion cynllunio, trwyddedu a chaniatadau wedi cael eu hamlygu fel rhwystrau posibl i ddatblygiad. Mae'r materion hyn yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sydd wedi gwneud sawl darn o waith ar hyn, gan gynnwys gwaith craffu diweddar ar [\*Fil yr Amgylchedd \(Cymru\) drafft.\*](#)

106. Byddem yn ailadrodd yr angen i sicrhau nad yw systemau cynllunio, trwyddedu a chaniatadau yn llesteirio ar ddatblygiad y sector ynni morol yng Nghymru yn ddiangen. Fodd bynnag, rhaid i ddatblygiad y sector hwn gael sail datblygiad cynaliadwy a dull sy'n seiliedig ar ecosystemau.

107. Enghraifft o gymhlethdod posibl yn y maes hwn yw datblygiad Morlyn Llanw Bae Abertawe. Clywsom sylwadau cadarnhaol drwy gydol yr ymchwiliad am effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol posibl y buddsoddiad arfaethedig. Ond, cawsom hefyd dystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Bysgota Pontardawe ac Abertawe a Chlwb Pysgota Cwm Afan yn nodi eu pryderon ynghylch effeithiau posibl y cynllun hwn.

<sup>27</sup> Paragraff 294, 15 Hydref 2015

<sup>28</sup> Paragraff 94, 15 Hydref 2015

<sup>29</sup> Paragraff 184, 15 Hydref 2015

108. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cael Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru, sy'n nodi ar sail strategol a gofodol beth yw blaenoriaethau Cymru ar gyfer ei hamgylchedd morol. Rhaid i brosesau cynllunio, trwyddedu a chaniatadau fod yn ddigon cadarn i ddelio â phryderon sefydliadau yng Nghymru.

109. Nodwyd hefyd fod y sylwadau ynghylch rôl Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n gyfrifol am drwyddedu morol ar gyfer dyfroedd glannau Cymru (0-12 milltir forol), yn gadarnhaol ar y cyfan ers ehangu'r tîm sy'n delio â'r maes hwn.

110. Mynegwyd pryderon ynghylch pa mor gyflym y caiff penderfyniadau eu gwneud, yn ogystal â lefel y ffioedd a godir ar gyfer rhai gwasanaethau, a chymhlethdod y drefn caniatadau a thrwyddedu. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn y broses o gynnal adolygiad o'r ffioedd yng nghyd-destun y pwerau ychwanegol ar gyfer trwyddedu morol y mae'n gofyn amdanynt ym Mil yr Amgylchedd (Cymru).

111. Mae'n debyg y bydd pwerau pellach yn cael eu datganoli drwy'r Bil Cymru drafft, sy'n gyfle i Lywodraeth Cymru edrych eto ar gyfundrefnau cynllunio, caniatadau a thrwyddedu morol.

112. Clywsom ganmoliaeth am gyfundrefnau trwyddedu, cynllunio a chaniatadau'r Alban, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried a oes gwersi y gellir eu dysgu a'u cymhwyso i Gymru.

### **Cynorthwyo a datblygu'r gadwyn gyflenwi**

113. Yn ogystal â'r prosiectau ynni mawr, mae potensial yn bodoli i ddatblygu'r busnesau llai sy'n gwasanaethu'r gadwyn gyflenwi.

114. Clywsom dystiolaeth fod angen datblygu buddion y diwydiant ynni adnewyddadwy drwy gydol y gadwyn gyflenwi, a bod angen gwneud mwy i gynnwys busnesau bach a chanolig lleol ac ymgysylltu â hwy.

115. Er enghraifft, amlygodd CBS Castell-nedd Port Talbot y byddai unrhyw brosiect ar raddfa fawr yn gyfle ar gyfer mewnfuddsoddiad a datblygiad y gadwyn gyflenwi leol yng Nghymru. Roeddent yn galw am ddatblygiadau etifeddiaeth gynaliadwy gan ddarparwyr technoleg o dramor, fel sefydlu gweithrediadau yn lleol i bob prosiect. Roeddent yn galw ar Gymru i geisio sicrhau bod pencadlys prosiectau yn aros yng Nghymru yn y tymor hir.<sup>30</sup>

116. Roedd cynghorau Abertawe ac Ynys Môn yn galw am godi mwy o ymwybyddiaeth ymysg busnesau bach a chanolig o'r cyfleoedd posibl drwy brosiectau buddsoddi mawr yn y sector ynni morol.

117. Dywedodd cyngor Castell-nedd Port Talbot:

“Social Benefit clauses for creating targeted recruitment and training, commitment to local sourcing and other community benefits should be built into maritime business contracts and funding offers.”<sup>31</sup>

118. Roedd Marine Energy Pembrokeshire hefyd yn cydnabod bod angen cefnogi cwmnïau llai o faint:

“Welsh Government could provide overarching support, particularly to SME’s in identifying and ensuring project fit, partners and maximum impact. Large funding programmes are often more suited to larger organisations and academic institutions who have specialised teams to deal with the often complex applications.”<sup>32</sup>

119. Roedd RenewableUK yn galw ar y Llywodraeth i osod targedau ar gyfer y gadwyn gyflenwi:

“Local value created should be properly accounted for. For example, indicative aspirational content/expenditure targets could be built in to project plans. The supply chain plan requirements for offshore wind are an example of this type of goal-setting.”<sup>33</sup>

---

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Dinas a Sir Abertawe

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Marine Energy Pembrokeshire

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig RenewableUK

## ***Argymhellion***

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

**Blaenoriaethu cyfranogiad mewn rhwydweithiau, prosiectau a phartneriaethau'r UE yn y sector ynni morol, gan ddefnyddio dull rhagweithiol a blaengar o ran ymgysylltu â mentrau ar lefel yr UE.**

**Sicrhau bod Llysgenhadon Cyllid yr UE yn cael eu cynnwys yng ngwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Morol newydd i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer ariannu a chyllid o'r UE yn cael eu cynnwys yng ngwaith y grŵp hwn.**

**Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Rhanbarth Macro yr Iwerydd neu Bartneriaeth Strategol, mewn trafodaethau ag Iwerddon, yr Alban, Llywodraeth y DU, y Comisiwn Ewropeaidd, a thrwy ei haelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau a Chynhadledd y Rhanbarthau Morwrol Ymylol.<sup>34</sup>**

**Mynnu penderfyniadau gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod eglurder ynghylch prisiau streic ar gyfer technolegau ynni morol adnewyddadwy gwahanol cyn gynted â phosibl.**

**Darparu mwy o gymorth ariannol ar gyfer prosiectau casglu data morol, gan gynnwys effeithiau posibl datblygiadau ar yr amgylchedd morol. Dylai hyn gynnwys meddwl yn greadigol ac yn rhagweithiol ynghylch sut y gallai gwahanol ffrydiau cyllid yr UE gefnogi hyn.**

---

<sup>34</sup> <http://www.crpm.org/>

## 5. Porthladdoedd

---

### Datganoli polisi porthladdoedd

120. Pan gyhoeddwyd ein hadroddiad 'Cysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru' ym mis Gorffennaf 2012, roedd argymhelliad allweddol yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru y dylid datganoli polisi porthladdoedd.

121. Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur gorchymyn ar ddatganoli pellach i Gymru: 'Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales'.<sup>35</sup> Roedd y papur yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatganoli polisi porthladdoedd i Gymru. Roedd yn cytuno:

“...that the devolution of ports policy fits well with the existing responsibilities of the Assembly and the Welsh Government in areas such as economic development, transport and tourism. Ports policy is currently not devolved, except for small harbours used mainly for the fishing industry and for leisure.

“The devolution of ports policy would enable the Welsh Government to consider the development of Welsh ports as part of its wider strategies for economic growth and ensure port development was fully integrated into plans to improve Wales’s transport infrastructure.”<sup>36</sup>

122. Mae'r Bil Cymru drafft, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2015 yn cynnwys darpariaethau a fydd, os cânt eu deddfu, yn datganoli agweddau allweddol ar bolisi porthladdoedd, gan gynnwys y gyfundrefn gynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o borthladdoedd. Byddai'n cynyddu cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio deddfwriaeth, a byddai hefyd yn trosglwyddo amrywiol bwerau gweithredol presennol o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru.

---

<sup>35</sup> Powers for a Purpose: Towards a Lasting Devolution Settlement for Wales  
<https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales>

<sup>36</sup> *ibid*

123. Byddai nifer o gymalau cadw, neu feysydd lle na fydd y Cynulliad yn gallu pasio cyfreithiau, yn aros yn eu lle. Mae'r maes mwyaf arwyddocaol, o bosibl, o'r rhain yn ymwneud â phorthladdoedd ymddiriedolaeth wrth gefn, ac fe fyddai'n atal y Cynulliad rhag pasio deddfau sy'n effeithio ar borthladdoedd ymddiriedolaeth mwy o faint yng Nghymru.<sup>37</sup> Byddai cyfyngiadau tebyg yn berthnasol ar ôl deddfu mewn perthynas â phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.

124. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau drafft ar y cyfan yn cynrychioli trosglwyddiad sylweddol o bwerau porthladdoedd o San Steffan i Gymru.

125. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn yng nghyd-destun y cynigion hyn. Fodd bynnag, daeth y casglu tystiolaeth i ben cyn cyhoeddi'r Bil Cymru drafft, felly nid ydym wedi ystyried cwmplas y pwerau arfaethedig.

### **Arallgyfeirio o ran Porthladdoedd Cymru**

126. Disgrifiwyd yn adran 3 uchod beth yw effaith economaidd porthladdoedd Cymru, a phwysigrwyd porthladdoedd i'r economi forwrol a'r economi ehangach yng Nghymru. Ond, clywsom hefyd am fygythiadau posibl i borthladdoedd Cymru o ganlyniad i Borthladdoedd Lerpwl a Bryste yn ehangu i adlewyrchu tueddiadau rhyngwladol tuag at longau mwy o faint.<sup>38</sup>

127. Nid yw Porthladdoedd yn cario nwyddau yn unig. Maent yn ganolfannau ar gyfer yr economi forwrol. Mae Strategaeth Twf Glas y Comisiwn Ewropeaidd yn disgrifio rôl draddodiadol porthladdoedd a chymunedau arfordirol fel canolfannau ar gyfer syniadau ac arloesedd newydd. Mae'n cyfeirio at natur gydgyssylltiedig y sectorau yn yr economi las ac i ba raddau y mae maent yn dibynnu ar sgiliau cyffredin a seilwaith a rennir, fel porthladdoedd a rhwydweithiau dosbarthu trydan.<sup>39</sup>

---

<sup>37</sup> Mae Porthladdoedd Ymddiriedolaeth yn gyrrff statudol annibynnol a lywodraethir gan eu statudau eu hunain o dan reolaeth bwrdd annibynnol lleol. Y porthladdoedd ymddiriedolaeth yng Nghymru yw Aberdaugleddau, Casnewydd, Castell-nedd, Saundersfoot a Chaernarfon.

<sup>38</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Rail Freight Group

<sup>39</sup> [COM\(2012\) 494](#) [PDF], cyhoeddwyd 13 Rhagfyr 2012

128. Ym mis Mawrth 2015, amlinellodd Matthew King o'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morwrol farn y Comisiwn ar sut y dylid datblygu rôl porthladdoedd:

“...the thing to do is not to think so much about how much more concrete can be poured on the coastline, but more how can ports develop their provision of services in a smart way to help provide support for.....emerging industries. It may be they need to develop their hinterland connections, or they need to develop port connections.

“I think, maybe, that the future of ports as well is to try to diversify a little bit their portfolio of services that they're currently providing, because they have a great location, and they have already some great infrastructure. So, the question for them will be how they can maximise their potential in partnership with other ports and other local businesses. I think that's an avenue worth exploring in future.”<sup>40</sup>

129. Mae llawer o'r sectorau yn yr economi las a nodir yn Strategaeth Twf Glas y Comisiwn yn cyd-fynd â'r rhai a ystyriwyd yn ein hadroddiad *Cysylltedd Rhyngwladol Drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru*, gan gynnwys:

- Ynni adnewyddadwy (gwynt ar y môr ac ynni cefnforol adnewyddadwy);
- Morgludo (hynny yw, masnach a nwyddau arfordirol a gludir ar y môr ynghyd â gwasanaethau fferi i deithwyr);
- Twristiaeth mordeithio; a
- Thwristiaeth arfordirol.

130. Pan wnaethom siarad â Phorthladdoedd Aberdaugleddau, Mostyn a Chaergybi, buom yn trafod eu barn ar rôl economaidd ehangach porthladdoedd, a sut y maent yn arallgyfeirio ac ymateb i newidiadau yn y farchnad.

---

<sup>40</sup> Paragraff 65, 19 Mawrth 2015

131. Dywedodd Porthladd Mostyn:

“...we believe that some ports should not be regarded as a maritime cargo handling facility in the first instance. Most ports have quite large landholdings; with a change of emphasis perhaps their future development should be more focused on providing industrial/manufacturing locations which also includes import/export facilities as secondary. In essence, some ports should be regarded more so as industrial parks with access to sea transport.”<sup>41</sup>

132. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Mostyn yn disgrifio sut iddo ennill enw da o fewn y sector ynni adnewyddadwy ar y môr yn dilyn dirywiad y marchnadoedd mewnfario mwyngloddio a deunyddiau crai, sef ei fusnes craidd blaenorol. Mae'r sgiliau a'r arbenigedd sydd wedi'u hennill wedi caniatáu'r porthladd i ymgymryd â chontractau adeiladu a chynnal a chadw ffermydd gwynt ledled y DU ac Iwerddon. Mae'n ymateb i newidiadau pellach yn y farchnad yn dilyn canslo prosiect Rownd 3 Celtic Array ac yn ystyried cyfleoedd ym meysydd biomas, ynni o wastraff, ynni llanw / tonnau ac adeiladu gorsaf ynni niwclear Wylfa.<sup>42</sup>

133. Dywedodd Porthladd Aberdaugleddau ei fod yn arwain y ffordd o ran ymgysylltu â'r sector ynni adnewyddadwy tonnau a llanw. Roedd yn cydnabod ei fod wedi colli cystadleurwydd o ran nwyddau ynni a bod y sector mewn perygl yn y porthladd. Clywsom fod y sgiliau yn y diwydiannau hyn yn addas ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy morol, sydd â buddiannau ar y cyd o ran seilwaith, agosrwydd y safle a sgiliau peirianeg y porthladd.

134. Pwysleisiodd Aberdaugleddau hefyd y cyfleoedd sy'n deillio o brif gynllun Doc Aberdaugleddau, a fydd yn troi'r doc yn un o gyrchfannau glannau mwyaf bywiog Sir Benfro, gan gwmpasu twristiaeth, hamdden forol a gweithgareddau pysgota proffesiynol ym mhorthladd pysgota mwyaf Cymru.<sup>43</sup>

---

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladd Mostyn

<sup>42</sup> Ibid

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladd Aberdaugleddau



135. Roeddem hefyd yn falch o glywed gan Borthladd Caergybi sut y mae rôl economaidd y porthladd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf:

“I think the attitude has changed, from my board’s point of view, over the last few years; we’re probably starting to understand the value of ports. And that first step was creating a master plan for Holyhead port, because we’re only using part of the asset, and we kind of recognise that. Obviously, still our core business is roll-on, roll-off, but with the advent of the master plan, we are starting to broaden our horizon, so to speak. So, with things like offshore renewables, no, we will not drive those, but we see ourselves as a facilitator. I think the mindset has changed, at least in Holyhead port that we have land and we need to find better uses for that land.”<sup>44</sup>

136. Dywedodd Porthladd Caergybi wrthym ei fod yn datblygu cysylltiadau gyda'r sector ynni adnewyddadwy, gan gyfeirio'n benodol at waith gyda Minesto a Phrifysgol Bangor ar ynni cefnforol.<sup>45</sup>

137. Rydym yn croesawu dull porthladdoedd Cymru. Er y byddwn yn trafod rhai cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a datblygiad pellach isod, roedd y dystiolaeth a glywsom yn awgrymu bod porthladdoedd yn cydnabod eu rôl economaidd ehangach. Maent yn ceisio arallgyfeirio mewn ffyrdd sy'n manteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â chadw swyddi a sgiliau presennol a'u datblygu.

138. Yn ystod ein hymweliad â Dulyn, buom yn trafod pwysigrwydd integreiddio porthladdoedd i mewn i'r economi leol, a chydweithio ag awdurdodau lleol. Yn arbennig, disgrifiodd Porthladd Dulyn sut y mae ei berthynas â Chyngor Dinas Dulyn wedi gwella er budd y porthladd a'r ardal leol.

139. Roeddem yn falch o nodi bod tystiolaeth gan rai awdurdodau lleol - Ynys Môn a Sir y Fflint yn bennaf - mewn ymateb i'n hymgyngoriad yn nodi bod porthladdoedd yn ymgysylltu â'u cymuned leol ac yn buddsoddi ynddynt.

140. Clywsom dystiolaeth yn awgrymu bod rôl hanfodol i Lywodraeth Cymru o ran cynorthwyo a hwyluso.

---

<sup>44</sup> Paragraff 119, 9 Gorffennaf 2015

<sup>45</sup> Paragraff 64, 9 Gorffennaf 2015

141. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn galw am fuddsoddiad:

“Lack of investment and development at Port Talbot has limited the potential for the Dock and Tidal Harbour.....As we move forward as a thriving City Region, seeking to maximise employment and wealth creation, Port Talbot needs to play its part in future growth and capitalise of the fantastic natural advantages the port has.”<sup>46</sup>

142. Nododd Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain, sy'n berchen ar Borthladd Port Talbot ac yn ei weithredu, gyfleoedd i ddatblygu potensial ei borthladdoedd:

“ABP would wish to engage closely with [Welsh Government] in respect of inward investment and the potential offered by its strategic land areas on its port estates and employment sites in close proximity with good access to ports.”<sup>47</sup>

143. Yn yr un modd, awgrymodd tystiolaeth Porthladd Aberdaugleddau hefyd bod angen cefnogaeth:

“Particular help will be needed to justify substantial new investment in new boat and ship repair facilities at Pembroke Dock, given the challenges being faced by the engineering sector in the county following cessation of refining.”<sup>48</sup>

144. Roedd cyfleoedd i ddatblygu'r diwydiant mordeithio hefyd yn amlwg. Pan aethom ar ymweliad â Phorthladd Caergybi, fe welom y potensial ar gyfer datblygu cyfleusterau mordeithio, gan gynnwys cyfleusterau angori. Yn ei dystiolaeth, pwysleisiodd Caergybi'r ffaith nad oedd yr elw uniongyrchol i borthladdoedd o seilwaith mordeithiau yn cyfiawnhau buddsoddiad gan y porthladd ei hun, er gwaethaf y manteision economaidd ehangach. Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan Borthladd Dulyn yn ystod ein hymweliad ag Iwerddon, ac fe'i nodwyd hefyd yn ein gwaith blaenorol ar borthladdoedd.

145. Awgrymodd tystiolaeth arall y gallai fod cyfleoedd mordeithiau mewn mannau eraill yng Nghymru. Awgrymodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot bod ganddo'r gallu i ddarparu ar gyfer llongau mordaith gyda rhywfaint o gymorth ariannol a buddsoddiad.

---

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

<sup>47</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladd Aberdaugleddau

146. Roeddem yn croesawu cyfeiriad y Gweinidog at waith Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r diwydiant mordeithio a'i gyfleusterau mewn datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar borthladdoedd ar 7 Gorffennaf 2015:

“We are also supporting the use of ports in Wales as cruise liner call ports, and encouraging ports and marinas as tourism gateways. In 2014, we saw a 155 per cent increase in cruise ships visiting Wales on the previous year, with an economic impact on Wales of some £2.9 million. This year, we will welcome 41 cruise vessels, carrying more than 21,000 passengers.

“Again, adopting a co-ordinated approach, we are working with Anglesey to develop the on-land visitor infrastructure to improve the sense of welcome for cruise visitors. The project is one of the three regionally prioritised projects from north Wales to be included within Visit Wales’s European regional development fund destination programme.

“In Fishguard, we are also exploring an option to deliver a floating pontoon to allow cruise ships to berth from 2016 onwards.”<sup>49</sup>

147. Yn ystod ein hymweliad â Phorthladd Caergybi, clywsom gadarnhad bod gwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu marchnad mordeithio Cymru yn llwyddo.

148. Rydym yn croesawu'r gwaith hwn, sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â mordeithio a godwyd yn ein hadroddiad, *Cysylltedd Rhyngwladol Drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru*<sup>50</sup>, ac yn cymeradwyo Llywodraeth Cymru am ei gwaith yn y maes hwn. Yn anochel, mae angen gwneud mwy i gefnogi'r sector mordeithio a datblygu porthladdoedd yn fwy cyffredinol.

149. Yn ein barn ni, os byddai Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r dull strategol tuag at yr economi forwrol yr ydym yn ei argymhell yn yr adroddiad hwn, byddai hynny'n ysgogi cydweithredu cryfach rhwng porthladdoedd o fewn strategaeth newydd ar gyfer porthladdoedd Cymru.

---

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, 7 Gorffennaf 2015

<sup>50</sup> [Cysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru \[PDF\]](#)

## Ardaloedd Menter

150. Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn awgrymu ei bod yn gweld rôl allweddol i'r Ardaloedd Menter o ran datblygu porthladdoedd a'r economi forwrol:

“We are clear on our intentions to use Enterprise Zones as a means of supporting and stimulating commercial activity and investment in and around ports which will, in turn, help promote the wider maritime economy.

“For example, the deep sea port of Milford Haven is a key selling point to potential investors in the Haven Waterway Enterprise Zone. The Port of Holyhead is an essential component of the North Wales Enterprise Zones and will likely play a key role within both the Wylfa Newydd project and marine energy sector by providing space for dockside facilities.”

151. Cafodd buddion Ardaloedd Menter i ddatblygiad porthladdoedd a'r economi forwrol ehangach eu cydnabod hefyd gan dystion ac ymatebwyr. Dywedodd Marine Energy Pembrokeshire ei fod yn: “promotes the use and benefits of Enterprise Zones and marine energy companies have benefited from being located in the [Enterprise Zone] area”.<sup>51</sup>

152. Dywedodd Cyngor Abertawe y byddai'n ffafrio strategaeth economi forwrol genedlaethol mwy cyffredinol / llywodraeth gyfan yn hytrach nag Ardaloedd Menter morwrol wedi'u targedu'n ddaearyddol, ond roedd yn cydnabod bod budd i ddatblygu Ardaloedd Menter fel rhan o'r strategaeth honno:

“I think enterprise zones could play their part within that strategy, and a good example might be the tidal lagoon. During the construction of that facility there will be many, many spin-off opportunities for local business, skills and recruitment. There could be the potential for the benefits associated with an enterprise zone to help stimulate some of those spin-offs.”<sup>52</sup>

---

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Marine Energy Pembrokeshire

<sup>52</sup> Paragraff 38, 15 Hydref 2015

153. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cydnabod fod Ardaloedd Menter yn darparu cymhellion ychwanegol ar gyfer datblygu busnesau presennol a denu buddsoddiad newydd. Nodwyd y byddai Castell-nedd Port Talbot yn croesawu Ardaloedd Menter.<sup>53</sup>

154. Roedd Porthladd Aberdaugleddau hefyd yn cydnabod eu buddion, ond awgrymwyd na ddylai'r rhain fod yn benodol i'r sector:

“Port areas need to be recognised as core development and economic zones for the Welsh Economy with hinterland connections to match. The creation of enterprise zones around ports is indicative of a strategic approach, but making enterprise zones sector specific is likely to restrict opportunity.”<sup>54</sup>

### **Cysylltedd trafniadaeth i borthladdoedd Cymru**

155. Roedd yn glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor bod angen dybryd i wella cysylltiadau trafniadaeth i borthladdoedd Cymru. Dywedodd Grŵp Porthladdoedd Cymru, sy'n rhan o Gymdeithas Porthladdoedd Prydain:

“The quality of the transport network is critical for efficient freight movement and business growth. The ports sector is essentially a private sector industry operating in competition, unsubsidised on a commercial basis. While ports ask very little of government they do require a good national transport infrastructure and good links to the network. While we would not underestimate the role that rail can play in the freight sector, roads are of particular significance to ports, with around 85% of all landside port traffic in the UK entering and leaving by vehicle.”<sup>55</sup>

---

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

<sup>54</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladd Aberdaugleddau

<sup>55</sup> Tudalen 1, tystiolaeth ysgrifenedig Grŵp Porthladdoedd Cymru

156. Roeddent yn canmol ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd grwpiau o randdeiliaid ym maes cludo nwyddau, ond yn cwyno bod cyllid ar gyfer rhoi eu hargymhellion ar waith yn parhau i fod yn her.<sup>56</sup> Roeddent yn galw am ymrwymadau cyllido cliriach i gefnogi datblygiad porthladdoedd ac yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod:

“Port connectivity and freight network improvements are prioritised with new arrangements whereby information about port connectivity needs can be fed into policy and planning processes at regional and national levels”.<sup>57</sup>

### **Ffyrdd**

157. Mae'r mwyafrif o drafnidiaeth forwrol Cymru yn dod o Iwerddon, yn enwedig ar y ffordd trwy Gaergybi, sy'n gweld 78 y cant o'r cludo nwyddau ar y ffordd i Iwerddon ac oddi yno, ac ychydig dros 75 y cant o deithwyr yn pasio drwy'r porthladd.<sup>58</sup>

158. Cafodd yr angen am rwydweithiau ffyrdd effeithiol i borthladdoedd ei amlygu'n eang gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, yn enwedig coridor yr A55 yn y gogledd, a'r A40 yn ne Cymru. Er enghraifft, dywedodd Irish Ferries:

“In North Wales, access to and from the port of Holyhead, is still hampered by the junction over Blackbridge, to connect to the A55. This is a significant bottle neck on departure from the port (it is the first impression of Wales from the perspective of Irish Passenger entry into Wales) and is not in keeping with what is the UK's second largest [roll-on roll-off] port and should be addressed, in tandem with port development plans from the Port Authority.

---

<sup>56</sup> Tudalen 2, ibid

<sup>57</sup> Tudalen 4, ibid

<sup>58</sup> Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol, *Trafnidiaeth Môr*, Chwefror 2015

“In South Wales, there are business cases being made, to support the dualling of A40 to Haverfordwest and the A477 to Pembroke Dock. It is unlikely that there will be funding for both projects and it is crucial that the final decision helps to sustain the current traffic levels on the primary route, but also provides for future growth.”<sup>59</sup>

159. O ran yr A40 a'r A477 yn ne Cymru, dywedodd Porthladd Aberdaugleddau bod gwahaniaeth barn ynghylch pa un ddylai gael cefnogaeth:

“I think there is some work to be done to actually investigate the merits of both of those route....and that’s what we would strongly encourage. However, for ports and for ports generally, with my Welsh ports hat on, all investment in roads is a good thing.”<sup>60</sup>

160. Ar ein hymweliad â Dulyn, dywedodd Cymdeithas Allforwyr Iwerddon fod y gwaith a wnaed hyd yma ar yr A55 wedi bod o fudd. Fodd bynnag, awgrymwyd bod tagfeydd ar yr A40 yn annog peidio â defnyddio'r coridor hwn yn y de, sy'n fygythiad i hyfywedd y porthladdoedd hyn ar gyfer cludo nwyddau ar y ffordd.

161. Roedd porthladdoedd yn awyddus i bwysleisio bod hyd yn oed enillion ymylol o ran gwella cysylltedd yn allweddol er mwyn cynnal cystadleurwydd â phorthladdoedd eraill y DU ac Ewrop. Er enghraifft, soniodd Irish Ferries bod cost tollau pont Hafren yn ffactor pan fydd cludwyr yn gwneud penderfyniadau ynghylch sefydlu canolfannau dosbarthu.

162. Roedd tystiolaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn dweud y byddai moderneiddio'r A55 yn hanfodol er mwyn hwyluso datblygiadau yn y dyfodol a gwneud y mwyaf o'u buddion.

---

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Irish Ferries

<sup>60</sup> Paragraff 37, 9 Gorffennaf 2015

163. Cytunodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth bod angen buddsoddi mewn trafndiaeth ar y ffyrdd. Dywedodd:

“I see the A55 as being absolutely crucial, and other parts of the network in north Wales, to ensure that we have greater economic activity in other parts of Wales.”

“We’re obviously looking at the issues about whether we require another crossing to Ynys Môn.”

164. Dywedodd: “In terms of roads policy, we are spending what we’re able to in terms of the financial transport plan.”<sup>61</sup>

### **Rheilffyrdd**

165. Er bod y dystiolaeth yn awgrymu mai buddsoddi mewn ffyrdd oedd y flaenoriaeth ar gyfer y rhan fwyaf o'r tystion a ymatebodd i'r ymgynghoriad, roedd yr angen i ystyried buddsoddi mewn rheilffyrdd hefyd wedi'i nodi, er bod y materion ynghlwm wrth hynny'n fwy cymhleth.

166. Daeth yr alwad fwyaf cadarn ar gyfer buddsoddi mewn rheilffyrdd gan y Rail Freight Group:

“RFG believes the current rail network in Wales presents a barrier to the development of ports in Wales, and that investment will be required to allow rail to play a full role in serving increased traffic through the ports and allowing the potential of the Maritime Economy to be developed in an environmentally sustainable manner. In particular, significant investment in the provision of enhanced loading gauge capability will be required, beyond the current plans which are limited to south-east Wales.”<sup>62</sup>

167. O ran cludo nwyddau ar y rheilffyrdd rhwng Dulyn a Chaergybi, dywedodd Irish Ferries: “the rail links are so far behind that that it doesn’t bear thinking about, really, in terms of the level of investment required.” Pwysleisiodd bod angen buddsoddi mewn gwell rhwydweithiau ffyrdd.

---

<sup>61</sup> Paragraff 141-142, 15 Hydref 2015

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Rail Freight Group



168. Yn ein cyfarfod â Chymdeithas Allforwyr Iwerddon yn Nulyn, awgrymwyd y gallai medrydd W10 fod yn fuddiol yn y dyfodol pe byddai'n caniatáu i Allforwyr Iwerddon anfon nwyddau ar y rheilffordd o Gaergybi yn uniongyrchol i Ewrop.

169. Rhybuddiodd Porthladd Mostyn, fodd bynnag, ynghylch buddsoddi mewn cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yng ngogledd Cymru:

“A major concern about ongoing proposals for the rail infrastructure is that over the past thirty years there have been numerous studies into the improvement and redevelopment of rail to facilitate the movement of unitised traffic (containers and trailers) between Holyhead and the Humber estuary ports, often referred to as a ‘Landbridge’ service.

“In our view the main beneficiary from such a service would be traffic between Ireland and Europe with just minor improvements and benefits to businesses in north Wales. Indeed it can be argued that such a service would inadvertently have an adverse impact on north Wales as it would soak up investment leaving little funding available for improvements to the region’s own rail freight requirements.”<sup>63</sup>

170. Mynegodd y porthladd bryder hefyd am effaith cynyddu cludo nwyddau ar wasanaethau teithwyr a nwyddau nad ydynt yn unedol.

171. Dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wrth y Pwyllgor fod gan y Llywodraeth grŵp sy'n edrych ar ffyrdd i wneud y mwyaf o gludo nwyddau ar y rheilffyrdd yng Nghymru.<sup>64</sup>

172. Rydym yn derbyn mai'r ffordd i sicrhau 'enillion' tymor byr o ran cysylltedd trafndiaeth i'n porthladdoedd yw trwy fuddsoddi mewn ffyrdd. Fodd bynnag, ni ddylid anwybyddu manteision hirdymor buddsoddi yn y rheilffyrdd, yn enwedig o ran y buddion amgylcheddol posibl o leihau allyriadau a gostyngiadau mewn traffig ar y ffyrdd os gellir symud llawer iawn o nwyddau ar y rheilffyrdd.

---

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladd Mostyn

<sup>64</sup> Paragraff 134, 15 Hydref 2015

173. Rydym yn nodi bod Rheoliad Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd yr UE (TEN-T) yn ei gwneud yn ofynnol bod prif reilffyrdd gogledd a de Cymru wedi'u trydaneiddio erbyn 2030. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu achos busnes ar gyfer moderneiddio'r brif linell yng ngogledd Cymru, i'w gyflwyno i Adran Drafndiaeth y DU. Rydym o'r farn y byddai'n esgeulus peidio ag ystyried materion fel capasiti ac uwchraddio i fesurydd W10 neu well, a hefyd cyfleusterau cludo nwyddau rhyngfoddol mewn manau priodol wrth ddatblygu cynigion moderneiddio er mwyn diogelu seilwaith rheilffyrdd Cymru ar gyfer y dyfodol, o ystyried cost ychwanegol uwchraddio pellach yn y dyfodol.

### **Datblygu Polisi Porthladdoedd Cymru**

174. Rydym yn disgwyl y bydd pwerau dros borthladdoedd yn cael eu datganoli, a dylai hynny ddarparu cyfleoedd i wella cydlynu o ran cynllunio a datblygu porthladdoedd, ac i symleiddio'r prosesau hynny â'r cyfundrefnau trwyddedu a chaniatadau morol wrth warchod buddiannau amgylcheddol. Dylai'r datganoli hefyd gefnogi integreiddiad porthladdoedd i mewn i strategaethau ehangach ar gyfer twf economaidd a thrafnidiaeth.

175. Mae Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cynnwys dau ymyriad sy'n ymwneud â phorthladdoedd, y ddau i'w cyflawni erbyn 2016-17. Mae'r cynllun yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu memorandwm dealltwriaeth gyda sector porthladdoedd Cymru gan nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a'r sector porthladdoedd yn cydweithio ac yn datblygu strategaeth porthladdoedd.<sup>65</sup>

176. Amlygodd tystiolaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth y cyfleoedd sy'n deillio o ddatganoli:

“The further devolution of powers in relation to Ports will allow Wales to maximise and streamline maritime economic opportunities by connecting policy and support for Welsh ports with existing, and future, devolved responsibilities and plans, for example on energy. We also expect to have responsibility for Harbour Orders devolved under the Wales Bill, enabling us

---

<sup>65</sup> Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, 2015

to consider how we can improve the order process for ports to help them secure opportunities.”<sup>66</sup>

177. Dywedodd y Gweinidog y byddai rôl porthladdoedd Cymru o ran cefnogi'r economi forwrol ehangach i wneud y mwyaf o dwf economaidd a swyddi yng Nghymru yn rhan annatod o strategaeth porthladdoedd Cymru.<sup>67</sup>

178. Polisi porthladdoedd presennol Llywodraeth y DU yw peidio ag ymyrryd. Mae porthladdoedd y DU yn cael eu rhedeg fel mentrau masnachol. Esboniodd Porthladd Aberdaugleddau sut y mae polisi porthladd Llywodraeth y DU yn gweithredu ar hyn o bryd:

“...that policy is very orientated around the fact that there is a mixture of ports—private and other sorts of ports. What they need to do they fund privately and they compete with each other, and policy is about maintaining a level playing field and about supporting ports investment plans, as and when they come forward. And I think that is the environment that we thrive best in and would like to see continue.”<sup>68</sup>

179. Ni chafwyd tystiolaeth yn dadlau yn benodol i symud at bolisi porthladdoedd ymyraethol yng Nghymru. Awgrymwyd pryder ynghylch y perygl y gallai porthladdoedd Cymru fod o dan anfantis gystadleuol pe bai dull ymyraethol pellach yn cael ei roi ar waith.

180. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr a thystion oedd yn gweld budd o ddatganoli ac integreiddio ac alinio datblygiad porthladdoedd â meysydd polisi ehangach. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cydnabod y gallai datganoli alluogi Llywodraeth Cymru i wella'r cydlyniad rhwng cynllunio trafndiaeth leol a datblygiad porthladdoedd ac roedd yn galw am greu polisi ar wahân i Gymru ar gyfer datblygiad economaidd y sector hwn.<sup>69</sup>

---

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

<sup>67</sup> ibid

<sup>68</sup> Paragraff 8, 7 Gorffennaf 2015

<sup>69</sup> tystiolaeth ysgrifenedig Castell-nedd Port Talbot

181. Yn yr un modd, awgrymodd Cyngor Abertawe:

“Devolution will enable port developments to be integrated with other transport infrastructure strategies and economic development functions which are already devolved.”<sup>70</sup>

182. Galwodd Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain ar Lywodraeth Cymru i sicrhau: “that policy and legislation do not result in a loss of competitiveness with other UK or international ports”.<sup>71</sup> Pwysleisiodd Irish Ferries bod angen: “ensure that a ‘level playing field’ be maintained, so that trade and business development in Welsh ports is not at a disadvantage to other UK ports.”<sup>72</sup>

183. Mae Grŵp Porthladdoedd Cymru wedi rhestru nifer o faterion polisi sy'n hanfodol i ddatblygiad economaidd porthladdoedd. Mae hyn yn nodweddiadol o'r dystiolaeth a gawsom gan borthladdoedd:

- The existing policies and market-led approach to ports policy which the Department for Transport currently supports, whereby there is no strategic or financial intervention from government, particularly on issues that might distort competition between ports;
- Continued recognition for the existing rights and obligations of ports maintaining the competitive position of the Welsh ports industry broadly in line with ports in other parts of the UK and beyond;
- An adequately staffed and resourced team of officials at the Welsh Government to engage with ports and also to facilitate Harbour Orders and Byelaws casework;
- A joined up approach to port consents across the relevant bodies in Wales to help speed up the planning process.<sup>73</sup>

---

<sup>70</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Dinas a Sir Abertawe

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain

<sup>72</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Irish Ferries

<sup>73</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Grŵp Porthladdoedd Cymru

184. Codwyd y mater o benderfyniadau cynllunio a chaniatadau a Gorchmynion Harbwr gan bob un o'r porthladdoedd a'r cwmnïau fferi a ymatebodd. Dywedodd Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain:

“A suitably resourced, responsive, efficient, streamlined and consistent land and marine planning process, which balances the need for development with that of the environment and local public interest, is vital to realising the potential benefit of the maritime economy in Wales. Providing a level playing field for planning when compared with other planning regimes is also crucial.”<sup>74</sup>

185. Clywsom hefyd dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen mwy o ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod porthladdoedd yn gallu manteisio ar gyfleoedd sydd ar gael. Dywedodd Porthladd Mostyn:

“...coming back to the renewable energy sector, it has been really the driver of our business for the past 12 years, but we get very little correspondence or communication from the Welsh Government, despite them having people responsible solely for renewable energy, or even an energy department. A classic example is Wylfa. If I want to try and find somebody who I know has responsibility solely for Wylfa, it's almost impossible to find them. It stems from, I have to say, the north Wales office.”<sup>75</sup>

186. Tra bo porthladdoedd Iwerddon yn eiddo cyhoeddus, maent yn gweithredu'n fasnachol fel cwmnïau cyfyngedig sy'n eiddo'n llwyr i Lywodraeth Iwerddon. Dywedodd Swyddfa Datblygiad Morwrol yr Iwerddon bod y model perchenogaeth yn llai pwysig na'r rhyddid i ymateb i amodau'r farchnad. Clywsom fod newidiadau bach yn effeithlonrwydd y sector porthladdoedd yn gallu cael effaith fawr ar fasnach, creu swyddi a'r economi ehangach, ac roedd y thema honno hefyd yn cael ei hadlewyrchu mewn tystiolaeth o Gymru.

187. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod y Porthladdoedd yng Nghymru a gymerodd ran yn yr ymchwiliad hwn yn effeithiol o ran ymateb i newidiadau yn y farchnad, gan chwilio am gyfleoedd i arallgyfeirio ac ymgysylltu â'r economi cenedlaethol a'r economi lleol.

---

<sup>74</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain

<sup>75</sup> Paragraff 77, 9 Gorffennaf 2015

188. Nodwyd tystiolaeth gan Grŵp Porthladdoedd Cymru na ddylid cael ymyrraeth strategol neu ariannol gan y Llywodraeth. Rydym yn cytuno, er bod porthladdoedd yn parhau i gydnabod eu bod yn cyflawni swyddogaeth economaidd ehangach y tu hwnt i'w busnes, y dylai rôl polisi porthladdoedd Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiad porthladdoedd yn hytrach na arwain y datblygiad hwnnw. Dylai hefyd gael gwared ar rwystrau i ddatblygiad drwy, er enghraifft, symleiddio'r broses cynllunio a thrwyddedu.

189. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod porthladdoedd eu hunain wedi nodi meysydd lle gallai cymorth gyda buddsoddiad fod yn ddefnyddiol, er enghraifft, seilwaith mordeithiau. Nodwyd hefyd y galwadau gan Borthladdoedd Cysylltiedig Prydain i Lywodraeth Cymru gynorthwyo porthladdoedd o ran canfod cyfleoedd cyllido a chael mynediad atynt. Felly, rydym yn credu bod rôl i Lywodraeth Cymru o ran cefnogi porthladdoedd i sicrhau buddsoddiad ac, o bosibl, o ran darparu'r buddsoddiad hwnnw pan fydd porthladdoedd yn ystyried ei fod yn angenrheidiol.

190. Roedd tystiolaeth Porthladd Caergybi yn nodi bod cael prif gynllun ar gyfer y porthladd wedi'i helpu i werthfawrogi ei rôl economaidd ehangach. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth o Iwerddon, yn enwedig lle mae'r prif gynlluniau'n cyd-fynd â pholisi'r UE. Nodwn fod Llywodraeth y DU wedi rhoi arweiniad ar brif gynlluniau porthladdoedd. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phorthladdoedd i sicrhau bod eu prif gynlluniau'n adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru.

191. Er bod yr amserlen ar gyfer datganoli polisi porthladdoedd yng nghylch gwaith Llywodraeth y DU, rydym yn credu bod angen symud yn gyflym i ymgysylltu â phorthladdoedd i ddatblygu polisiau Cymreig. Yn anad dim, rydym yn cydnabod bod yna bryderon yngghylch datganoli ac y gallai'r ansicrwydd hynny fod yn niweidiol. Mae porthladdoedd angen gwybod cyn gynted â phosibl ac angen esboniad clir o fwriadau Llywodraeth Cymru o ran ei pholisi porthladdoedd.

192. Mae angen brys i gyflymu a symleiddio'r gyfundrefn cynllunio a thrwyddedu ar gyfer porthladdoedd. O safbwynt cynllunio, mae'r Bil Cymru drafft, os caiff ei ddeddfu, yn tynnu porthladdoedd yng Nghymru allan o'r Gyfundrefn Caniatadau Datblygu, lle mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol y DU. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn paratoi i gyflwyno categori newydd o dan 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. Bydd y broses hon yn cyflymu ceisiadau gan y bydd penderfyniadau yn cael eu cymryd o fewn amserlen benodol. Dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys porthladdoedd Cymru fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

193. Yn olaf, fel gyda phob maes polisi datganoledig newydd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi'r sgiliau a'r adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau newydd, ac i wneud gwelliannau i drefniadau cynllunio a thrwyddedu.

### ***Argymhellion***

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

**Adolygu polisi Ardaloedd Menter o ganlyniad i ddatganoli arfaethedig polisi porthladdoedd. Yn benodol, dylai'r adolygiad ystyried a yw'r dull sector yn briodol ar gyfer yr ardaloedd hynny sy'n cynnwys porthladdoedd, o ystyried cwmpas y cyfleoedd o fewn yr economi forwrol. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried a oes angen mwy o Ardaloedd Menter i gefnogi datblygiad porthladdoedd.**

**Datblygu prosiectau ffyrdd priodol ac effeithiol i wella llif traffig ar yr A55 a'r A40 o ystyried y risg i borthladdoedd yn sgil newidiadau ymylol o ran effeithlonrwydd.**

**Gweithio gyda phorthladdoedd perthnasol a rhanddeiliaid lleol eraill yn ogystal â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i ystyried sut y gall cynlluniau moderneiddio'r rheilffyrdd yng Nghymru helpu i ddatblygu'r diwydiant cludo nwyddau ar y rheilffyrdd er mwyn gwasanaethu porthladdoedd Cymru.**

**Gweithredu'n bendant yn dilyn datganoli pwerau cynllunio porthladdoedd er mwyn symleiddio a chyflymu proses gynllunio porthladdoedd a'i hintegreiddio â phroses trwyddedu a chaniatadau morol effeithiol sydd ag adnoddau addas er mwyn gwneud penderfyniadau yn gyflym ynghylch ceisiadau datblygu. Dylid ystyried cynnwys gwelliannau i borthladdoedd mawr a datganoledig Cymru fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.**

**Ymgysylltu â phorthladdoedd Cymru a Grŵp Porthladdoedd Cymru i egluro cwrpas y strategaeth ar gyfer porthladdoedd Cymru yn y dyfodol a sut y bydd hynny'n cael ei ddatblygu i roi sicrwydd i'r sector.**

#### **Datblygu Polisi Porthladdoedd i Gymru sy'n:**

- Darparu gweledigaeth glir ar gyfer porthladdoedd Cymru ac arweinyddiaeth strategol sy'n cefnogi porthladdoedd i gyflawni eu nodau;
- Nodi'n glir lle mae angen cymorth ychwanegol, er enghraifft, o ran nodi a darparu seilwaith neu wasanaethau sydd â budd economaidd ehangach ond sy'n cynhyrchu elw uniongyrchol cyfyngedig i'r porthladdoedd eu hunain;
- Alinio â pholisïau twf glas a thrafnidiaeth yr UE er mwyn hwyluso ymgysylltu â'r UE a chefnogi ceisiadau am gyllid gan yr UE;
- Annog datblygu a rhoi prif gynlluniau porthladdoedd ar waith, sy'n adlewyrchu rôl ehangach porthladdoedd yn yr economi forwrol, a'r economi leol yn gyffredinol;
- Cynnwys asesiad o allu cystadleuol porthladdoedd Cymru;
- Cynnwys porthladdoedd mewn polisïau allweddol yng Nghymru, yn arbennig ar ddatblygiad yr economi forwrol, polisi trafndiaeth, polisi amgylcheddol a chynllunio a pholisïau ehangach sy'n cefnogi twf economaidd.



## 6. Agenda Ymchwil a Sgiliau

---

194. Drwy gydol yr ymchwiliad cafwyd tystiolaeth am y gwaith da sydd ar y gweill yng Nghymru o ran ymchwil a datblygu, ac i fynd i'r afael â'r anghenion sgiliau a hyfforddiant yn y diwydiannau morwrol ar gyfer y dyfodol.

### **Sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau angenrheidiol**

195. Roedd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn galw ar i Lywodraeth Cymru roi cefnogaeth ariannol i sefydlu canolfannau rhagoriaeth ynni adnewyddadwy morol ar gyfer ymchwil, datblygu, hyfforddi a gweithgynhyrchu.

“Skills & Training present a further opportunity for businesses, as this sector and projects develop, skilled people will be required pre, during and post completion.”<sup>76</sup>

196. Dywedodd Cyngor Ynys Môn bod y sector morwrol yn wynebu heriau sy'n gysylltiedig â sgiliau a hyfforddiant, rhagdybiaethau am atyniad gyrfaedd morwrol, recriwtio, dadleoli a chwyddiant cyflogau a delwedd y sector ac y gallai strategaeth gydlynol i ddelio â'r materion hyn gynorthwyo gyda'u goresgyn.<sup>77</sup>

---

<sup>76</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

<sup>77</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Ynys Môn

197. Clywodd y Pwyllgor gan Tidal Lagoon Power fod gwaith eisoes wedi dechrau yn y maes hwn.

“We are working with the independent Tidal Lagoon Industry Advisory Group and their Skills and Training subgroup to identify and develop strategies to respond to the challenge of maximising skills and training opportunities generated by tidal lagoon projects. The Welsh Government is also supporting this work through commission of labour market studies to help inform the labour demand, the potential supply of labour, analysis of skills gaps and identify potential interventions required (in the short and longer term) to realise the employment opportunity for Wales. Whereas there will be immediate skills needs to deliver the Tidal Lagoon Swansea Bay project, the demand to supply the industry will be ongoing, which is why education programs are also important.”<sup>78</sup>

198. Rydym yn croesawu'r mentrau ar y cyd hyn rhwng y diwydiant a'r Llywodraeth. Maent yn atgyfnerthu rhai o'n hargymhellion blaenorol a oedd yn amlygu bod angen cynnig mwy o brentisiaethau a phrentisiaethau mwy amrywiol.<sup>79</sup>

199. Mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Cymru hefyd ynghlwm wrth y gwaith hwn gyda Tidal Lagoon Power a Llywodraeth Cymru. Yn eu tystiolaeth, nodwyd y rhagwelir bod angen tua 5 y cant o'r gweithlu adeiladu presennol yng Nghymru i ddarparu prosiectau ynni morol dros y pum mlynedd nesaf.

“...the committee should consider the delivery of an appropriately skilled construction workforce as a pre-requisite of success for the maritime economy, particularly around developments associated with the Swansea Bay Tidal Lagoon and the Energy Island Programme on Anglesey.”<sup>80</sup>

---

<sup>78</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tidal Lagoon Power

<sup>79</sup> Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith, Mai 2015

<sup>80</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Cymru

200. Dywedodd porthladdoedd Mostyn ac Aberdaugleddau wrth y Pwyllgor fod yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt yn digwydd fel rhan o'r swydd. Dywedodd eu cynrychiolwyr nad oes dim yn curo hyfforddi fel rhan o'r swydd a bod gan Gymru brinder morwyr abl. Clywodd y Pwyllgor ei fod yn ddiwydiant byd-eang ac nad yw Cymru yn rhoi digon o gymhellant i forwyr abl aros yn y wlad.<sup>81</sup>

201. Pwysleisiodd Dr Ian Masters o Brifysgol Abertawe bwysigrwydd gosod y sector ynni morol o fewn y sector ynni yn ei gyfanrwydd. Dywedodd fod anghenion sgiliau'r sector ynni yn hysbys iawn:

“...they're the same skills that you might need to do any other energy project; it just happens to be wet.”<sup>82</sup>

202. Nododd nad oes dealltwriaeth dda o hyn yn gyffredinol, ond amlygodd waith Marine Energy Pembrokeshire ac Ynys Ynni Môn o ran ceisio ymdrin â hyn yn eu cymunedau eu hunain.

203. Dywedodd Dr Masters bod angen mwy o raddedigion peirianeg ar gyfer y sector ynni yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y sector morol. Soniodd am waith ei adran ym Mhrifysgol Abertawe i hyrwyddo peirianeg mewn ysgolion i geisio annog pobl ifanc i ddewis gwyddoniaeth a pheirianeg.

204. Mae hyn yn unol â'n gwaith blaenorol ar bynciau STEM, lle mae cydnabyddiaeth glir ar draws Cymru a chan Lywodraeth Cymru bod angen mynd i'r afael â'r diffyg presennol yn y niferoedd sy'n dewis bynciau STEM mewn ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch.

205. Roedd tystiolaeth Prifysgol Bangor yn nodi:

“Wales is a world leader in marine science research and has a strong track record in collaborative applied marine science.”<sup>83</sup>

206. Dywedodd Dr Masters wrthym hefyd fod y gwaith yng Nghymru yn rhagorol a bod ansawdd gwaith ei ganolfan ymchwil gystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn rhannau eraill o'r byd.

207. Pwysleisiodd fod gwaith ymchwil morol yn rhan o'r adran beirianeg ehangach yn Abertawe, ac y byddai'n elwa o'r buddsoddiad yn yr ail gampws newydd a mynediad at gyfleusterau newydd a gwell.

---

<sup>81</sup> Paragraff 65, 9 Gorffennaf 2015

<sup>82</sup> Paragraff 264, 15 Hydref 2015

<sup>83</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig SEACAMS Prifysgol Bangor

208. Fodd bynnag, pwysleisiodd hefyd fod angen buddsoddiad pellach mewn capasiti ymchwil ar gyfer y sector ymchwil morol yng Nghymru. Nododd fod gan grŵp ymchwil morol Prifysgol Caeredin fwy o gapasiti ymchwil yn y maes hwn nag sy'n bodoli yng Nghymru gyfan.

209. Clywodd y Pwyllgor gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru, yr Athro Julie Williams, ym mis Tachwedd fod diffyg capasiti ymchwil yn broblem sy'n wynebu'r sector Addysg Uwch yng Nghymru gyfan, gan amcangyfrifir bod diffyg o tua 650 o ymchwilwyr cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru.<sup>84</sup>

210. Mae angen manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan ddatblygiad a gosodiad technoleg adnewyddadwy forol i sicrhau bod y bwlch sgiliau yn cael ei gau o fewn Cymru. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru a Tidal Lagoon Power i fapio'r cyflenwad a'r galw am sgiliau ar gyfer datblygiad y morlyn llanw yn Abertawe. Rhaid datblygu'r ymarfer hwn ymhellach. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull mwy strwythuredig o ran mapio anghenion sgiliau; un sy'n cwmpasu'r economi forwrol gyfan. Rydym hefyd yn argymhell cynnal asesiad o anghenion sgiliau gyda sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i sicrhau bod darparwyr addysg yn gallu bodloni gofynion y diwydiannau morwrol.

211. Clywsom, yn ystod ein hymweliad â Dilyn, sut y mae Llywodraeth Iwerddon yn edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan, gan gynnwys galwedigaethau proffesiynol megis cyfreithwyr arbenigol, ymgynghorwyr ac arianwyr yn yr economi forwrol, fel rhan o'i huchelgais i fod yn arweinydd byd-eang mewn ynni cefnforol a sectorau cysylltiedig yn y dyfodol. Mae angen i ni ddefnyddio dull yr un mor eang yng Nghymru ar gyfer anghenion sgiliau'r sector hwn.

---

<sup>84</sup> Paragraff 14, 25 Tachwedd 2015

## ***Argymhellion***

Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

**Blaenoriaethu buddsoddiad cynyddol mewn gallu ymchwil morol, gan gynnwys trafodaethau â Llysgenhadon Cyllid yr UE ar y cyd ag Addysg Uwch yng Nghymru ar sut y gellir defnyddio cyllid yr UE a chyllid arall i gefnogi hyn. Dylai hyn gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer datblygu cais COFUND ar gyfer ymchwil morol.**

**Gofyn i Lysgenhadon Cyllid yr UE edrych am gyfleoedd i raglenni cyllido'r UE gefnogi'r agenda hwn, gan gynnwys (ond nid yn unig) Erasmus+, Horizon 2020, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Rhaglenni Cydweithio Tiriogaethol.**

**Adolygu'r gefnogaeth i ynni morol a'r economi forwrol ehangach yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel ac archwilio sut y gellir cryfhau hynny drwy bartneriaeth rhwng tîm Llywodraeth Cymru, Addysg Uwch yng Nghymru a swyddfeydd CLILC.**

**Cynnal ymarfer mapio yn edrych ar anghenion sgiliau a hyfforddiant yr economi forwrol yn y dyfodol ac adolygu'r ddarpariaeth bresennol o ran hyfforddiant ym maes Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru i ategu'r anghenion hyn ar gyfer y dyfodol. Dylai ystyried y gwaith a wnaed eisoes i edrych ar anghenion y sector ynni morol o ran sgiliau.**

## **7. Ymgysylltiad â'r UE a chyfleoedd ariannu'r UE**

---

### **Cyflwyniad**

212. Yn ystod ein hymweliad â Brwsel a Lwcsembwrg ym mis Mehefin buom yn canolbwyntio yn arbennig ar y cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth gan Fanc Buddsoddi Ewrop, gan ein bod eisoes wedi ymgymryd â gwaith sylweddol mewn ymchwiliadau blaenorol i'r gwahanol raglenni cyllid yr UE sydd ar gael ar gyfer 2014-2020.

213. Buom yn ymweld â phencadlys Banc Buddsoddi Ewrop yn Lwcsembwrg i drafod â chroestoriad o arbenigwyr o'r timau sy'n gyfrifol am ynni adnewyddadwy, trafndiaeth, ymchwil, buddsoddiadau cronfeydd strwythurol yr UE a'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Strategol (EFSI), sy'n rhan o'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer Ewrop.

214. Mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi cael y dasg o reoli'r EFSI, sy'n ychwanegol at weithrediadau cymorth presennol y Banc. Bwriad yr EFSI yw canolbwyntio ar fuddsoddiadau â mwy o risg, na fyddent yn cael cefnogaeth fel arfer.

215. Dylai'r ffocws ar brosiectau risg uchel siwtio prosiectau ynni morol i'r dim, o ystyried bod datblygiad y sector hwn yn ei ddyddiau cynnar. Clywsom gan Lywodraeth Cymru am nifer o'r syniadau ar gyfer prosiectau y mae wedi'u cyflwyno - drwy Lywodraeth y DU - i'r rhestr o brosiectau ar gyfer yr EFSI. Maent yn cynnwys mentrau Ynys Ynni Môn a Morlyn Llanw Bae Abertawe a'r gwelliannau capasiti a chydnerthu i'r A55.

### **Polisi Trafnidiaeth a Chyllid yr UE**

216. Yn ein hadroddiad ar *Gyfleoedd Cyllido yr UE 2014-2020*, ystyriwyd polisi TEN-T yr UE a'r cyfleoedd i gael mynediad at gyllid Cyfleuster Cysylltu Ewrop yr UE.

217. Yn yr adroddiad, mynegwyd pryder nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw geisiadau am arian yn ei rhinwedd ei hun ar gyfer cyllid TEN-T yn ystod y cyfnod ariannu 2007-13. Ystyriwyd goblygiadau'r ffaith nad yw Cymru wedi cael ei chynnwys yn rhwydwaith coridor TEN-T, a mynegwydd siom nad oedd Porthladd Caergybi wedi'i gynnwys yn rhwydwaith craidd TEN-T, er ei fod yn borthladd rhwydwaith cynhwysfawr.

218. CEF yw cyfraniad ariannol allweddol yr UE i ddatblygiad y rhwydwaith TEN-T. Daeth yr alwad prosiect cyntaf ar gyfer cyllid CEF i ben ym mis Chwefror 2015. Dyrannodd yr alwad hon dros €13 biliwn, sy'n cynrychioli mwy na hanner o gyfanswm y cyllid CEF yr oedd Cymru'n gymwys i wneud cais ar ei gyfer. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ceisiadau am gyllid CEF yn y rownd gyntaf, roeddent yn aflwyddiannus.

219. Yn Iwerddon, clywsom fod porthladdoedd Iwerddon wedi bod yn hynod o lwyddiannus gyda'u ceisiadau yn rownd gyntaf CEF. Cafodd tri phorthladd mwyaf Iwerddon gyllid CEF werth bron i €40 miliwn, ac fe gafodd Porthladd Dulyn €100 miliwn o gyllid gan Fanc Buddsoddi Ewrop.

220. Daeth i'r amlwg mewn cyfarfodydd gyda Gweinidog Twristiaeth, Trafnidiaeth a Chwaraeon Iwerddon a Phorthladd Dulyn bod sawl ffactor yn gyfrifol am lwyddiant cymharol Iwerddon, ac fe nododd Porthladd Dulyn yn arbennig y ffactorau canlynol a oedd yn allweddol o ran y llwyddiant:

- **Datblygu rhestr o brosiectau:** Cafodd Prosiect Ailddatblygu Basn Alexandra Porthladd Dulyn, a sicrhodd gyllid sylweddol, ei ddatblygu dros bum mlynedd;
- **Ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd:** Pwysleisiodd Porthladd Dulyn bod angen i borthladdoedd a Gweinidogion gymryd rhan mewn digwyddiadau i randdeiliaid TEN-T fel "diwrnodau TEN-T" a bod angen "dysgu iaith" rhaglenni'r UE. Roedd gan y ceisiadau gefnogaeth y Gweinidog, a oedd yn cymryd rhan weithredol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.
- **Ceisio cyllid ar gyfer astudiaethau yn gyntaf:** Mae cyllid ar gyfer astudiaethau yn gosod y ffordd ar gyfer ceisiadau am gyllid ar gyfer gwaith yn y dyfodol.
- **Creu cysylltiadau rhwng yr UE a pholisi cenedlaethol:** Roedd Polisi Porthladdoedd Cenedlaethol Iwerddon a phrif gynllun Porthladd Dulyn yn cyfeirio at, ac yn alinio â, pholisi'r UE sy'n dangos sut y gallai buddsoddiad yr UE ychwanegu gwerth at y rhwydwaith TEN-T.

## Traffyrdd y môr a chyfleoedd eraill i Gymru

221. Yn ein hymchwiliad i *Gyfleoedd Cyllido yr UE 2014-20* nodwyd cyfleoedd i Gymru sicrhau arian CEF, yn enwedig drwy Draffyrdd y Môr, sy'n 'flaenoriaeth lorweddol' i gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith porthladdoedd a gwella cysylltedd rhwng porthladdoedd. Gallai Traffyrdd y Môr hefyd ariannu cysylltiadau trafndiaeth i borthladdoedd.

222. Mae ein hargymhellion yn amlygu'r angen i ddatblygu perthynas waith agos â chyrrff a sefydliadau perthnasol yr UE. Rydym hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

**Gweithio gyda rhanddeiliaid, yr Adran Drafndiaeth a phorthladdoedd craidd mewn aelod-wladwriaethau eraill, yn arbennig Iwerddon, i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a datblygu rhestr o brosiectau priodol.**<sup>85</sup>

223. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad hwn, clywsom dystiolaeth gan Borthladdoedd Cymru yn awgrymu eu bod wedi camddeall Traffyrdd y Môr. Dywedodd Porthladd Aberdaugleddau:

“I think.....where routes have started between two ports, supported by the motorways of the sea programme, they’ve lasted for as long as the funding has been around and then they tend to sort of disappear again.....I’ve always thought the motorways of the sea constituted a great opportunity, but you’ve still got to get market operators prepared to take the risk of starting a service to exploit it, and that’s really the challenge.”<sup>86</sup>

224. Yn yr un modd, dywedodd Porthladd Caergybi:

“I’d just say that we’ve looked at it as a company and ... every example we can see fails once the subsidy stops, and I think it’s going to get harder because, looking at the tonnage market for these vessels, the tonnage market now is going up. The price of them is going up.”<sup>87</sup>

---

<sup>85</sup>Pwyllgor Menter a Busnes, [Cyfleoedd Cyllido yr UE 2014-20](#) [PDF] Argymhelliad 16, tudalen 45

<sup>86</sup> Paragraff 145, 9 Gorffennaf 2015

<sup>87</sup> Paragraff 148, 9 Gorffennaf 2015



225. Mae hyn yn awgrymu bod y porthladdoedd hyn yn gweld Traffyrdd y Môr fel modd o ddarparu cymhorthdal i ddechrau busnes ar gyfer llwybrau newydd rhwng porthladdoedd, yn hytrach na chyfle i sicrhau cyllid ar gyfer seilwaith porthladdoedd a chysylltiadau trafnidiaeth yng nghefn gwlad.

226. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i gael mynediad at gyllid CEF:

“We are continuing to explore opportunities to bid for EU funding for Trans-European Transport Network (TEN-T) projects for ports related developments, including under the ‘Motorways of the Sea’ funding stream which can encompass hinterland connections.”<sup>88</sup>

227. Roedd yn cyfeirio at gyngor gan y Cydlynnydd Ewropeaidd ar gyfer Coridor TEN-T Môr y Gogledd-Môr y Canoldir, ac sy'n adlewyrchu un o'n hargymhellion ni yn 2014 y dylai Cymru weithio mewn partneriaeth â'r Iwerddon a rhannau eraill o'r DU. Nododd hefyd ei bod yn archwilio posibiliadau ar gyfer prosiectau ar y cyd ag Iwerddon yn ogystal â 'Transport for the North' a'r cysyniad 'Northern Powerhouse' yn Lloegr.

228. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad ag Iwerddon, dywedodd Porthladd Dulyn a Llywodraeth Iwerddon wrthym mai ychydig o ymgysylltiad sydd wedi bod â Chymru hyd yn hyn, er bod cyfleoedd clir i gydweithio yn bodoli, yn enwedig ar gyfer prosiectau Traffyrdd y Môr. Yn wir, dywedodd Llywodraeth Iwerddon wrthym y gallai ein gwaith ni hwyluso cyswllt a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn ddiffygiol hyd yma. Dywedodd Porthladd Dulyn wrthym eu bod wedi cyfarfod â'r Cydlynnydd Traffyrdd y Môr yn y Comisiwn Ewropeaidd ac wedi trafod cyfleoedd sylweddol a blaenoriaethau.

---

<sup>88</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

229. Fe wnaethom ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystod y cyfnod casglu tystiolaeth i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd hyn. Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“I wrote to Minister Donohoe last year about exploring joint ‘Motorways of the Sea’ projects, including hinterland connections with our ports. Officials have been following up with counterparts in the Irish Government and the British-Irish Chamber of Commerce.

“We would also be happy to engage directly with the Port of Dublin.”<sup>89</sup>

230. Clywsom hefyd dystiolaeth ehangach y byddai porthladdoedd a rhanddeiliaid eraill yn croesawu mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain (ABP):

“Early consultation and engagement with key industry groups, port companies, importers and exporters and shipping lines/agents as to where opportunities for business growth and inward investment may lie is essential in ensuring Wales maximises its potential. ABP would be very keen to engage with specialist Welsh Government officers with a good technical understanding of the various local, national and EU based support schemes to support opportunities in south Wales.”<sup>90</sup>

231. Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fod rôl i Lywodraeth Cymru o ran gweithio gyda pherchnogion / gweithredwyr porthladdoedd ac awdurdodau lleol i lunio ceisiadau ar y cyd am gyllid ac arian cyfatebol gyda phorthladdoedd eraill yn Ewrop.<sup>91</sup>

232. Rydym yn croesawu'r dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n awgrymu ei bod yn archwilio cyfleoedd gyda CEF a Thraffyrdd y Môr, yn enwedig y ffaith bod y Gweinidog wedi cael ymweliad gan Gydlynnydd Coridor Môr y Gogledd-Môr y Canoldir.

---

<sup>89</sup> Llythyr gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, 10 Tachwedd 2015.

<sup>90</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain

<sup>91</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

233. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig iawn nad oes mwy o gynnydd a chynnydd mwy cadarn wedi'i wneud yn y 18 mis ers cyhoeddi ein hadroddiad. Mae'r diffyg dealltwriaeth ymysg rhai o borthladdoedd Cymru o'r cyfleoedd sy'n codi drwy Draffyrdd y Môr yn destun pryder gwirioneddol o ystyried yr amser sy'n gysylltiedig â datblygu prosiectau, a'r ffaith bod mwy na hanner o'r cyllid CEF y gallai Cymru fod yn gymwys ar ei gyfer eisoes wedi'i ddyrannu. Dyma'r union fater yr oedd argymhellion ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2014 yn ceisio datrys.

234. Mae'n amlwg bod angen llawer mwy o ymdrech ac ymdrech fwy rhagweithiol ar ran Llywodraeth Cymru os yw Cymru i elwa ar y cyfle sy'n cael ei gyflwyno gan arian CEF.

### **Cyllid ac ymchwil yr UE**

235. Clywsom am waith rhagorol a gyflawnwyd gyda chyllid strwythurol yng Nghymru - mae SEACAMS (Sustainable Expansion of the Applied Coastal and Marine Sectors), sy'n bartneriaeth rhwng Prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe, yn enghraifft o arfer gorau o ran addysg uwch yn gweithio'n uniongyrchol â'r diwydiant i ddarparu'r wybodaeth wyddonol sydd ei hangen i leihau'r risgiau i fuddsoddwyr. Mae'r cydweithio hyn yn golygu y bydd SEACAMS wedi denu tua £10 miliwn o fuddsoddiad i mewn i ranbarth cydgyfeirio Cymru yn ystod ei oes o bum mlynedd.<sup>92</sup>

236. Dywedodd yr Athro Colin Jago o Brifysgol Bangor fod y penderfyniad cyllido ynghylch ail gyfnod y prosiect hwn, SEACAMS II, ar hyn o bryd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Roedd pryderon pe bai'r cyllid yn cael ei oedi y gallai'r arbenigedd sydd wedi'i ddatblygu gael ei golli i wledydd eraill wrth i ymchwilwyr abl edrych y tu hwnt i Gymru.<sup>93</sup>

237. Roeddem yn bryderus iawn o glywed am yr oedi hwn o ystyried yr adborth eithriadol o gadarnhaol a gafodd y prosiect SEACAMS gwreiddiol.

---

<sup>92</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig SEACAMS (paragraff 2.1)

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig SEACAMS

238. O ran casglu data morol a'i ddadansoddi, dywedodd Tidal Lagoon Power yn ei dystiolaeth:

“Gaps in the marine evidence base, which should be addressed through focused investment in collaborative industry focused research projects.”<sup>94</sup>

239. Clywsom hefyd gan Brifysgol Abertawe fod angen cefnogi technoleg yn y cyfnodau cynnar er mwyn creu ffrwd arloesedd:

“Helping Welsh universities to build and maintain innovation capacity to support technology R&D will naturally lead to further collaborations with marine energy companies who are looking to deploy their technologies in Welsh waters.”<sup>95</sup>

240. Gwelsom lai o dystiolaeth bod Addysg Uwch yng Nghymru yn cymryd rhan mewn galwadau yn ymwneud ag ynni ac ymchwil morol o dan Horizon 2020 - sef rhaglen ymchwil ac arloesi'r UE.

241. Mae hyn yn cyferbynnu â'r Iwerddon lle gwelsom dystiolaeth bod buddsoddiadau sylweddol yn cael eu gwneud mewn capasiti ymchwil a datblygu, gan gynnwys drwy Sefydliad Morol Iwerddon. Mae gan Iwerddon dargedau uchelgeisiol ar gyfer Horizon 2020 ac fe lwyddodd i dynnu symiau sylweddol o gyllid i lawr yn y galwadau cyntaf. Ei tharged cyffredinol ar gyfer Horizon 2020 yw €1.2 biliwn, ac fe sicrhawyd dros €120 miliwn o gyllid yr UE eisoes drwy'r galwadau yn 2014.

### **Rôl fwy gweithredol i Lywodraeth Cymru**

242. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn ailadrodd y galwadau yn ein hymchwiliadau *Cyfleoedd Cyllido yr UE 2014-2020 a Horizon 2020* i godi mwy o ymwybyddiaeth a thargedu cefnogaeth arbenigol ar gyfer busnesau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i annog a hwyluso eu cyfranogiad mewn rhaglenni cyllido.

---

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tidal Lagoon Power

<sup>95</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Abertawe

243. Roedd Tidal Lagoon Power yn gefnogol:

“The Welsh Government could consider setting up a support network for the private sector, to enable access to expert knowledge of EU funding, and to build capability in the private sector to improve the quality of funding bids. Targeted awareness initiatives could help encourage private sector funding applications in priority ‘Blue growth’ sector to realise the most economic value from funding opportunities.”<sup>96</sup>

244. Roedd cydnabyddiaeth fod y broses weinyddol gymhleth ar gyfer sicrhau cyllid yn annymunol i lawer o fusnesau, a busnesau bach a chanolig yn benodol. Dywedodd Marine Energy Pembrokeshire:

“Welsh Government could provide overarching support, particularly to SME’s in identifying and ensuring project fit, partners and maximum impact. Large funding programmes are often more suited to larger organisations and academic institutions who have specialised teams to deal with the often complex applications.”<sup>97</sup>

245. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, roedd Gweinidog yr Economi Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cydnabod bod angen gwneud mwy i helpu cwmnïau i edrych ar ble y gallent gael cyllid.<sup>98</sup>

246. Mae'r thema hon, sef yr angen am gymorth mwy arbenigol un-i-un, wedi cael ei chodi gan Lysgenhadon Cyllid yr UE Llywodraeth Cymru, fel y clywsom yn ein sesiwn ddiweddar gyda hwy ar 23 Medi 2015, a byddem yn disgwyl iddynt godi'r mater hwn gyda'r Gweinidog.

---

<sup>96</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Tidal Lagoon Power

<sup>97</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig Marine Energy Pembrokeshire

<sup>98</sup> Paragraff 97, 15 Hydref 2015

## ***Argymhellion***

Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

**Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd yn y rhestr o brosiectau posibl a nodwyd ar gyfer cefnogaeth gan yr EFSI.**

**Ymgysylltu'n llawer mwy rhagweithiol â sefydliadau'r UE a rhanddeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu'r cysylltiadau angenrheidiol i fanteisio ar CEF a ffynonellau eraill posibl o gyllid yr UE ar gyfer trafndiaeth. Dylai hyn gynnwys cyfranogiad Gweinidogol mewn digwyddiadau rhanddeiliaid, fel Diwrnodau TEN-T.**

**Ymgysylltu, fel mater o frys, â Llywodraeth y DU, Llywodraeth Iwerddon, porthladdoedd Iwerddon, porthladdoedd Cymru, rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru a Chomisiwn yr UE i ddatblygu cynigion ar gyfer Cyllid Trafndiaeth yr UE, yn enwedig prosiectau Traffyrdd y Môr. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru gynnal cynhadledd i ganiatáu i randdeiliaid, yn enwedig porthladdoedd Cymru, ddeall cyfleoedd cyllido'r UE ac ystyried ffordd ymlaen.**

**Rhoi i borthladdoedd y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gael gafael ar gyllid yr UE a ffynonellau eraill. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu a oes gan ei staff y sgiliau a'r hyfforddiant cywir i wneud hyn.**

**Gofyn i uned Horizon 2020 WEFO fynd i'r afael â'r alwad gan fusnesau bach a chanolig i gael cyngor a chefnogaeth arbenigol unigol o ran manteisio ar gyfleoedd drwy raglenni cyllido'r UE.**

## **Atodiad A – Cylch Gorchwyl**

---

### **Ymchwiliad i Botensial yr Economi Forwrol yng Nghymru**

#### **Cylch gorchwyl**

- Edrych ar gyfleoedd i ddatblygu'r Economi Forwrol yng Nghymru gan ganolbwyntio'n benodol ar botensial Cymru o safbwynt ynni morol/cefnforol.
- Edrych ar rôl a phwysigrwydd porthladdoedd/gweithredwyr fferi Cymru a chysylltedd â'r Iwerddon a'r risgiau/bygythiadau sy'n wynebu hynny yng nghyd-destun y Coridor TEN-T/Môr y Gogledd-Môr y Canoldir.
- Edrych ar y flaenoriaeth a roddir i ddatblygu'r Economi Forwrol gan Lywodraeth Cymru, yn arbennig y cyfleoedd a gynigir gan ynni morol/cefnforol.

## **Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig**

---

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=182>

Cyngor Sir Ynys Môn  
Ynys Ynni Môn  
Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain  
Dinas a Sir Abertawe  
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu  
Canolfan Ynni Morol Ewrop  
Cyngor Sir y Fflint  
Irish Exporters Association  
Marine Energy Pembrokeshire  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot  
Clwb Pysgota Pontardawe ac Abertawe Cyf / Clwb Pysgota Cwm Afan  
Porthladd Aberdaugleddau  
Porthladd Mostyn  
Grŵp Porthladdoedd Cymru, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain  
Irish Ferries Limited  
Rail Freight Group  
Rhodri Glyn Thomas, Papur Safbwynt ar gyfer Cyngor y Rhanbarthau  
RenewableUK  
SEACAMS Prifysgol Bangor  
Severn Tidal  
Prifysgol Abertawe  
Tidal Lagoon Power  
Cyswllt Amgylchedd Cymru  
Llywodraeth Cymru



## Atodiad C – Tystion

---

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn

<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1307>

Dyddiad	Enw
24 Mehefin	Jacoppo Moccia, Cyfarwyddwr Polisi a Gweithrediadau, Ocean Energy Europe
9 Gorffennaf	<ul style="list-style-type: none"><li>• Alec Don, Prif Weithredwr, Porthladd Aberdaugleddau</li><li>• Jim O'Toole, Rheolwr Gyfarwyddwr, Porthladd Mostyn</li><li>• Paddy Walsh, Rheolwr Porthladdoedd y DU, Irish Ferries</li><li>• Capten Ian Davies, Rheolwr Llwybrau Stena Line, De Môr Iwerddon</li><li>• Yr Athro Colin Jago, Deon y Coleg, yr Ysgol Gwyddorau Morol, Prifysgol Bangor</li><li>• Ieuan Wyn Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Parc Gwyddoniaeth Menai</li></ul>
17 Medi	Rhodri Glyn Thomas AC, yn rhinwedd ei swydd fel rapporteur ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau ar 'Ddatblygu Potensial Ynni Cefnforol'

Dyddiad	Enw
1 Hydref	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Paschal Donoghue TD, Gweinidog Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chwaraeon Iwerddon</li> <li>• Simon Coveney TD, Gweinidog Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr Iwerddon</li> <li>• Bernie Comey, yr Adran Gyfathrebu, Ynni ac Adnoddau Naturiol</li> <li>• Brendan Cahill, Awdurdod Ynni Cynaliadwy Iwerddon</li> <li>• Peter Coyle, Cymdeithas Diwydiant Ynni Adnewyddadwy Morol</li> <li>• Michael Sheary ac Eamonn O'Reilly, Porthladd Dulyn</li> <li>• Niall Stobie a Howard Knott, Cymdeithas Allforwyr Iwerddon</li> <li>• Liam Lacey a Rebecca Wardell, Swyddfa Datblygiad Morwrol yr Iwerddon, Sefydliad Morol Iwerddon</li> <li>• Amaya Vega, Cyfarwyddwr, NUI Galway - Sefydliad Ryan ar gyfer Ymchwil yr Amgylchedd, y Môr ac Ynni</li> </ul>
15 Hydref	<ul style="list-style-type: none"> <li>• David Jones, Marine Energy Pembrokeshire</li> <li>• Graham Hillier a Ioan Jenkins, Tidal Lagoon Power</li> <li>• Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru</li> <li>• Rhodri Griffiths, Pennaeth Polisi Trafnidiaeth, Cynllunio a Phartneriaethau</li> <li>• Phillip Holmes, Pennaeth Adfywio Economaidd a Chynllunio, Dinas a Sir Abertawe</li> <li>• Gareth Nutt, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</li> <li>• Dr Ian Masters, Prifysgol Abertawe</li> </ul>

Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod Cyllid yr UE ar gyfer buddsoddi yn yr economi forwrol ar 19 Mawrth 2015 gyda Matthew King, Pennaeth Polisi Morwrol yr Iwerydd, y Rhanbarthau Mwyaf Allanol a'r Arctig, a Cristina Amil López, Swyddog Polisi, o'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Materion Morwrol a Physgodfeydd yn y Comisiwn Ewropeaidd.